Department for
Energy Security
& Net Zero

**3-8 Whitehall Place**
**London**
**SW1A 2AW**
**+44 020 7215 5000**
**energyinfrastructureplanning@energysecurity.gov.uk**
**www.gov.uk/desnz**

**Cyf: EN070007**

Martin Currie
Liverpool Bay CSS Limited
ENI House
Ebery Bridge Road
London
SW1W 8PZ

20 Mawrth 2024

Annwyl Mr Currie,

**DEDDF GYNLLUNIO 2008: CAIS AM GANIATÂD DATBLYGU I BIBLINELL CARBON DEUOCSID HYNET**

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Cefais fy nghyfarwyddo gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Sicrwydd Ynni a Sero-Net ("yr Ysgrifennydd Gwladol") i'ch hysbysu bod adroddiad yr Awdurdod Archwilio ("ExA") dyddiedig 20 Rhagfyr 2023 wedi cael ei ystyried. Roedd yr ExA yn cynnwys dau arolygydd archwilio, Christopher Butler (Arweinydd Panel) a Matthew Shrigley. Roedd yr ExA yn cynnal Archwiliad i'r cais a gyflwynwyd ar 3 Hydref 2022 ("y Cais") gan Liverpool Bay CCS Limited ("yr Ymgeisydd") am Orchymyn Caniatâd Datblygu ("y Gorchymyn") o dan adran 37 Deddf Gynllunio 2008 ("Deddf 2008") ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet a Datblygiad Awdurdodedig ("y Datblygiad Arfaethedig"). Derbyniwyd y Cais i gael ei Archwilio ar 31 Hydref 2022. Dechreuodd yr Archwiliad ar 20 Mawrth 2023 gan orffen ar 20 Medi 2023. Derbyniodd yr Ysgrifennydd Gwladol Adroddiad yr ExA ar 20 Rhagfyr 2023.

1.2. Ar 31 Ionawr 2024, anfonodd yr Ysgrifennydd Gwladol lythyr ymgynghori[1] at yr Ymgeisydd, Cadent Gas Limited, Yr Ymddiriedolaeth Gamlesi ac Afonydd, Dŵr Cymru Welsh Water, Asiantaeth yr Amgylchedd, Encirc Limited, Exolum Pipeline Systems Limited, Network Rail (Cymru a Lloegr), National Grid Electricity Transmission PLC, National Grid Gas PLC, Priffyrdd Cenedlaethol, Peel NRE Limited, United Kingdom Oil Pipelines Limited a Wales and West Utilities yn gofyn am wybodaeth am ddarpariaethau diogelu ac unrhyw gytundebau masnachol. Daeth yr ymgynghoriad i ben am 23:59 ar 14 Chwefror 2024 a chyhoeddwyd yr ymatebion ar 16 Chwefror 2024.

1.3. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn golygu adeiladu, gweithredu a datgomisiynu piblinell carbon deuocsid 60.4 cilometr ("km") o hyd (24km yn biblinell nwy naturiol wedi'i hail-bwrpasu) o Sir Gaer yn Lloegr i Sir y Fflint yng Nghymru, gyda'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer ei gweithredu'n cynnwys Gosodiadau Uwchlaw'r Ddaear ("gosodiadau AGI") a Gorsafoedd Falfiau Bloc ("gorsafoedd BVS"). Mae llwybr y Datblygiad Arfaethedig yn gorwedd o fewn

[1] https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN070007/EN070007-003033-HYCO%20-%20Consultation%20Letter%201%20-%2031%20January%202024.pdf

ffiniau gweinyddol Cyngor Sir y Fflint ("FCC") a Chyngor Bwrdeistref Caer a Gorllewin Sir Gaer ("CWCC").

1.4. Byddai’r Gorchymyn a ymgeisiwyd amdano’n rhoi caniatâd datblygu ar gyfer:

- Adeiladu piblinell carbon deuocsid newydd:
  - Piblinell AGI Ince at AGI Stanlow – darn 4km;
  - Piblinell AGI Stanlow at AGI Fflint – darn 32km; a
  - Piblinell AGI Fflint at Gysylltiad Fflint – darn 0.4km;
- 24km o biblinell nwy naturiol wedi’i hailbwrpasu i gludo carbon deuocsid o Gysylltiad Fflint i Derfynell Point of Ayr yn Point of Ayr;
- Pedwar AGI – Ince, Stanlow, Northop Hall a Fflint;
- Chwe BVS – tair wedi eu lleoli ar hyd y Biblinell newydd o AGI Stanlow i AGI Fflint a thair wedi eu lleoli ar hyd y Cysylltiad Fflint presennol at Biblinell Terfynell Point of Ayr;
- Seilwaith arall uwchlaw’r ddaear gan gynnwys cabinetau cywiro trawsnewidydd diogelu cathodig a physt marcio piblinell;
- Seilwaith cysylltu i gyfleustodau gan gynnwys cyfleustodau pŵer a chebl ffeibr-optig; a
- Gwaith ategol dros dro sy’n rhan annatod o adeiladu’r biblinell carbon deuocsid, gan gynnwys compowndiau adeiladu a thraciau mynediad dros dro.

1.5. Cyfeiriwn at yr elfennau uchod yn y llythyr hwn fel y Datblygiad Arfaethedig. Mae prosiect ehangach (y cyfeiriwyd ato yn Adroddiad yr ExA fel y “Prosiect HyNet ehangach”) sy’n cynnwys cynlluniau ar gyfer gwaith cynhyrchu hydrogen newydd, piblinellau dosbarthu hydrogen, storfa hydrogen a chreu seilwaith dal a storio carbon ychwanegol. Nod cyffredinol y Prosiect HyNet ehangach yw lleihau allyriadau carbon deuocsid o ddiwydiant, cartrefi a thrafnidiaeth a chefnogi twf economaidd. Nid yw’r elfennau hyn o’r Prosiect HyNet ehangach yn rhan o’r Datblygiad Arfaethedig ac mae angen proses ganiatâd ar wahân ar eu cyfer.

1.6. Mae’r Ymgeisydd hefyd yn gofyn am bwerau prynu gorfodol (“CA”) a meddiant dros dro (“TP”), a ddisgrifir yn y Gorchymyn drafft a gyflwynir gyda’r Cais.

1.7. Oherwydd bod y Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys adeiladu piblinell traws-gwlad, gydag un pen iddi yng Nghymru a’r pen arall yn Lloegr, sydd ddim yn cael ei hadeiladu gan drawsgludydd nwy (yn ôl y diffiniad yn Neddf Piblinellau 1962), mae’r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ("NSIP") o dan a21 Deddf 2008 [ER 1.1.14]. Mae’r Datblygiad Arfaethedig felly’n cwrdd â’r diffiniad o NSIP sydd wedi’i gynnwys yn a14(1)(g) Deddf 2008 ac mae felly angen caniatâd datblygu o dan a31 Deddf 2008 [ER 1.1.14].

1.8. Ochr yn ochr â’r llythyr hwn ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio[2] y mae copi o Adroddiad Canfyddiadau’r ExA ynghyd â Chasgliadau ac Argymhellion i’r Ysgrifennydd Gwladol (“Adroddiad yr ExA”). Cyflwynir canfyddiadau a chasgliadau’r ExA ym Mhenodau 4-7 Adroddiad yr ExA gyda chrynodeb yr ExA o’r casgliadau a’r argymhellion ym Mhennod 10. Mae’r holl gyfeiriadau rhifol, oni nodir yn wahanol, yn rhai at baragraffau yn Adroddiad yr ExA [“ER *.*.*”].

[2] https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/

## 2. Crynodeb o Adroddiad ac Argymhelliad yr ExA

2.1. Mae'r prif faterion a ystyriwyd yn ystod yr Archwiliad ac y daeth yr ExA i gasgliadau arnynt ar yr achos dros gael caniatâd datblygu, wedi eu cyflwyno yn Adroddiad yr ExA o dan y penawdau cyffredinol canlynol:

- Yr Achos dros fod Angen y Datblygiad;
- Asesiad o'r Opsiynau Eraill;
- Gwydnwch Newid Hinsawdd;
- Bioamrywiaeth, Ecoleg a Chadwraeth Natur;
- Perygl Llifogydd, Adnoddau Dŵr, Halogi Tir;
- Tirlun ac Amwynder Gweledol / Dyluniad a Chynllun Gosod Allan;
- Treftadaeth Ddiwylliannol;
- Sŵn a Dirgryniad;
- Ansawdd yr Aer ac Allyriadau (yn cynnwys o lwch, mwg a stêm)
- Traffig, Trafnidiaeth a Pholisi Rheoli Gwastraff; a
- Effeithiau Economaidd-Gymdeithasol (gan gynnwys Iechyd Pobl) / Defnydd Tir Amaethyddol / Goblygiadau Gwaith Mwynau / ac Effeithiau Cronnus Cyffredinol.

2.2. Roedd yr ExA yn ystyried bod y Datblygiad Arfaethedig, ar ffurf fersiwn amgen yr Ymgeisydd o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft ("dDCO") (Fersiwn Pont Bibell Wedi'i Mewnblannu), yn bodloni'r profion yn adran 105 Deddf 2008. Gan hynny, roedd yr ExA yn argymell bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Piblinell Carbon Deuocsid HyNet yn y ffurf a atodir yn Atodiad D i Adroddiad yr ExA ("rDCO") [ER 10.2.2].

2.3. Bwriedir i'r llythyr gael ei ddarllen ochr yn ochr ag Adroddiad yr ExA ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno, ac eithrio lle y nodir fel arall yn y paragraffau isod, â chanfyddiadau, casgliadau ac argymhellion yr ExA a gyflwynir yn Adroddiad yr ExA, a rhesymau'r Ysgrifennydd Gwladol dros ei phenderfyniad yw'r rhai a roddir gan yr ExA i gefnogi ei chasgliadau a'i hargymhellion.

## 3. Crynodeb o Benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol

3.1. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried Adroddiad yr ExA a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill, gan gynnwys sylwadau ysgrifenedig ("WR"), sylwadau perthnasol ("RR"), ymatebion i gwestiynau a chyflwyniadau llafar a wnaed yn ystod yr Archwiliad, a sylwadau RR a dderbyniwyd ar ôl gorffen yr Archwiliad, ac ymdrinnir â'r rhain i gyd fel y bo'n briodol yn y llythyr penderfyniad isod. Gwnaed 83 o sylwadau RR yn ystod yr Archwiliad yng nghyswllt y Cais (gyda 12 arall ar gyfer Cais Newid 1 a dau ar gyfer Cais Newid 2) gan awdurdodau statudol, busnesau, sefydliadau anllywodraethol, ac unigolion.

3.2. Ymdrinnir â'r mater o groesi Nant Alltami yn 4.12 isod. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA y dylai'r groesfan fod drwy bibell wedi'i mewnblannu. Mae cyfeiriadau at yr rDCO yn y llythyr hwn felly'n cyfeirio at y Gorchymyn DCO a argymhellir gan yr ExA sy'n seiliedig ar fersiwn amgen yr Ymgeisydd o'r dDCO (Fersiwn Pont Bibell Wedi'i Mewnblannu) a roddir yn REP8-007.

3.3. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried y cydbwysedd cynllunio yn ei gyfanrwydd ac, am y rhesymau a roddir yn y llythyr hwn, wedi dod i'r casgliad bod manteision cyhoeddus y

Datblygiad Arfaethedig yn gwrthbwyso'r niwed wedi'i adnabod ac y dylid felly rhoi caniatâd datblygu.

3.4. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu o dan adran 114 Deddf 2008 y bydd yn gwneud Gorchymyn, gyda newidiadau, yn rhoi caniatâd datblygu i'r Datblygiad Arfaethedig. Mae'r llythyr hwn yn datgan y rhesymau dros benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i bwrpas adran 116 Deddf 2008 a'r hysbysiad a'r datganiad sydd eu hangen o dan reoliadau 31(2)(c) a (d) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017 ("Rheoliadau EIA").

3.5. Wrth wneud y penderfyniad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau cyfreithiol a heb ystyried unrhyw fater sy'n amherthnasol i'r penderfyniad.

## 4. Ystyriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o'r Cais

Ystyriaethau Deddfwriaethol

4.1. Mae'r ExA wedi ystyried y cwestiwn o "Ddatblygiad Awdurdodedig" a "Datblygiad Cysylltiedig" ynghyd â barn yr Ymgeisydd ym Mhennod 2 ("y Prosiect) y Datganiad Amgylcheddol ("ES") [REP7-035] bod y biblinell arfaethedig, ynghyd â'r gosodiadau AGI a'r gorsafoedd BVS, yn ffurfio'r Datblygiad Arfaethedig (h.y. y Datblygiad Awdurdodedig). Roedd hyn yn arbennig o berthnasol wrth benderfynu beth i'w gynnwys yn y Cais am y rhan o'r Datblygiad Arfaethedig sydd yng Nghymru, o ystyried y diffiniad mwy cyfyngedig o Ddatblygiad Cysylltiedig yn adran 115 Deddf 2008.

4.2. Dywedodd yr Ymgeisydd nad oedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â'u barn. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru unrhyw gyflwyniadau i'r Archwiliad nac ychwaith ar ôl yr Archwiliad, yn cadarnhau ei safiad [ER 4.8.1]. Fodd bynnag, dywedodd FCC ei fod yn cytuno â barn yr Ymgeisydd nad oedd y gosodiadau AGI a'r gorsafoedd BVS yn cael eu hystyried i fod yn "Ddatblygiad Cysylltiedig" oherwydd eu bod yn dod o dan y diffiniad o "biblinell" yn adran 65 Deddf Piblinellau 1962 ("Deddf PLA").

4.3. Roedd yr ExA yn fodlon bod y Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys y biblinell, y gosodiadau AGI, y gorsafoedd BVS a'r seilwaith cysylltiedig, yn Ddatblygiad Awdurdodedig fel NSIP o dan a14 ac a21 Deddf 2008, oherwydd bod y Datblygiad Arfaethedig yn biblinell traws-gwlad yn ôl y diffiniad yn a235 Deddf 2008 sy'n cadarnhau bod ganddi'r un ystyr â 'phib-linell' o dan a65 y Ddeddf PLA [ER 4.8.3]. Mae adran 65(1) y PLA yn diffinio 'pib-linell' fel *"pibell (ynghyd ag unrhyw gyfarpar a gwaith sy'n gysylltiedig â hi), neu system o bibelli (ynghyd ag unrhyw gyfarpar a gwaith yn gysylltiedig â nhw), er mwyn cludo unrhyw beth heblaw aer, dŵr, anwedd dŵr neu stêm..."*

4.4. Roedd yr Ymgeisydd, heblaw am ei safiad nad oedd y gorsafoedd BVS yn rhan o'r Datblygiad Arfaethedig ac felly ddim yn Ddatblygiad Cysylltiedig, er mwyn osgoi oedi, wedi cynnwys y gorsafoedd BVS yng Nghymru yn y Cais am y Datblygiad Arfaethedig a hefyd wedi cyflwyno cais cynllunio i FCC ar 29 Mehefin 2023 o dan Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Y TCPA"). Penderfynodd FCC roi caniatâd i'r cais BVA, gydag amodau, ar 10 Ionawr 2024. Roedd yr Ymgeisydd wedi cadarnhau, yn ei gyflwyniad ôl-Archwiliad dyddiedig 24 Ionawr 2024 os penderfynir bod y gosodiadau BVS yn rhan o'r Datblygiad Arfaethedig, y byddai unrhyw waith yn cael ei wneud o dan y DCO ac nid o dan y caniatâd [PID-001]. Mae'r Ymgeisydd wedi dweud nad yw wedi gweithredu'r caniatâd cynllunio TCPA gan aros tan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud penderfyniad ar y Cais.

4.5. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â safiad yr ExA ac, am y rhesymau a roddodd, yn fodlon nad oes unrhyw agwedd ar y Datblygiad Arfaethedig yn Ddatblygiad Cysylltiedig. Mae'r gosodiadau BVS felly wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn.

4.6. Roedd yr ExA hefyd wedi ystyried Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir yn llawn, gan nodi bod yr Ymgeisydd wedi cadarnhau yn DL7 [REP7-001] ei fod wedi gwneud cais am Drwydded Forol gan Dîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru ("NRW") ar gyfer Croesfan Afon Dyfrdwy [ER 3.4.1]. Roedd yr Ymgeisydd wedi cadarnhau yn ei gyflwyniad ôl-Archwiliad dyddiedig 19 Rhagfyr 2023 ei fod wedi ailgyflwyno'r cais am Drwydded Forol ar 5 Medi 2023, wedi ymateb i geisiadau am wybodaeth bellach gan NRW ac yn deall y gellir ond gwneud penderfyniad ar y cais am Drwydded Forol ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud penderfyniad ar y cais caniatâd datblygu [PIR-005].

<u>Ystyriaethau Polisi</u>

4.7. Mae adrannau 104 ac 105 Deddf 2008 yn disgrifio'r dull o wneud penderfyniadau os oes mwy nag un o'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ("NPS") yn berthnasol (a104) ac os nad oes unrhyw NPS yn berthnasol (a105). Oherwydd nad oes unrhyw NPS mewn grym ar gyfer piblinellau carbon deuocsid, casglodd yr ExA y dylid penderfynu'r Datblygiad Arfaethedig o dan a105 Deddf 2008. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno.

4.8. Er nad yw'r Datblygiad Arfaethedig yn dod o dan unrhyw NPS penodol, mae'r ExA wedi ystyried NPS EN-1 fel ystyriaeth bwysig a pherthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig fel dogfen cyfeiriadau polisi sy'n cynnwys egwyddorion ollgynhwysol sy'n cefnogi datgarboneiddio ac amrywio cyflenwadau ynni [ER 3.3.3]. Mae'r ExA hefyd yn ystyried bod NPS EN-4 yn bwysig a pherthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig oherwydd ei fod yn rhoi canllawiau ar ystyriaethau technoleg-benodol yn ymwneud â phiblinellau, sef nwy a / neu olew sy'n cynnwys llwybrau cynllunio; diogelwch y biblinell; sŵn a dirgryniad; bioamrywiaeth; tirlun ac amwynder gweledol; ansawdd ac adnoddau dŵr; a phridd a daeareg [ER 3.3.14].

4.9. Ar 14 Rhagfyr 2020 cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar Ynni, *Powering Our Net Zero Future*, gan nodi y byddai'r gyfres NPS o ddatganiadau ynni'n cael eu hadolygu ond yn cadarnhau na fyddai'r datganiadau NPS presennol, a ddynodwyd yn 2011, yn cael eu hatal dros dro yn y cyfamser. Mae'r ExA wedi cyfeirio at y datganiadau NPS 2011 hyn fel EN-1 ac EN-4, felly hefyd yn y llythyr hwn. Cyhoeddwyd datganiadau NPS drafft ar 6 Medi 2021 a fu'n destun ymgynghori a ddaeth i ben ar 29 Tachwedd 2021. Cyhoeddwyd fersiynau wedi eu diweddaru o'r datganiadau NPS drafft hyn ar 30 Mawrth 2023 a fu'n destun ymgynghori pellach a ddaeth i ben ar 23 Mehefin 2023. Mae'r ExA yn cyfeirio at ddatganiadau NPS drafft ("dNPS") Mawrth 2023 drwy gydol Archwiliad ac Adroddiad yr ExA, gyda dNPS EN-1 a EN-4 yn cael eu hystyried i fod yn bwysig a pherthnasol.

4.10. Rhyddhawyd datganiadau NPS drafft diwygiedig ar 22 Tachwedd 2023 a'u dynodi yn y Senedd ar 17 Ionawr 2024 ("datganiadau NPS 2024"). Ni ystyriodd yr ExA ddatganiadau NPS 2024 yn Adroddiad yr ExA oherwydd cawsant eu rhyddhau ar ôl i'r Archwiliad ddod i ben. Dywedodd yr ExA pe byddent wedi cael eu dynodi cyn i benderfyniad gael ei wneud; y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol fod eisiau eu hystyried wrth benderfynu'r Datblygiad Arfaethedig [ER 3.3.18]. Gan hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried datganiadau NPS dynodedig 2024, yn enwedig EN-1 ac EN-4, wrth benderfynu'r Cais, ac yn rhoi sylw i'r rhain lle bo'n berthnasol yn y llythyr hwn, ond nid yw'n ystyried bod unrhyw beth ynddynt a fyddai'n ei harwain i wneud penderfyniad gwahanol ar y Cais na'r penderfyniad a gyrhaeddodd drwy ystyried datganiadau NPS 2011.

4.11. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried Strategaeth Sicrwydd Ynni Prydain ("BESS") a gyhoeddwyd ar 7 Ebrill 2022, sy’n amlinellu’r camau i’w cymryd i garlamu cynnydd y llywodraeth tuag at gyrraedd sero-net erbyn 2050 a’r ymdrechion hirdymor i symud tuag at ddarparu pŵer rhatach a glanach. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi ystyried y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol ("NPPF") wedi’i ddiweddaru o Ragfyr 2023 a ryddhawyd ar ôl i’r Archwiliad ddod i ben gan hefyd gasglu nad oes unrhyw beth a fyddai’n ei harwain at wneud penderfyniad gwahanol ar y Cais. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried polisi perthnasol Cymru, yn enwedig Polisi Cynllunio Cymru ("PPW") wedi’i ddiweddaru o Chwefror 2024 a’r Nodiadau Cyngor Technegol ("TAN") cysylltiedig. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi ystyried Adroddiadau Effaith Lleol ("LIR") a gyflwynwyd gan CWCC ac FCC, gwybodaeth amgylcheddol yn ôl y diffiniad yn rheoliad 3(1) Rheoliadau EIA ynghyd â’r holl faterion eraill a ystyrir i fod yn bwysig a pherthnasol i benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

4.12. Yn ystod yr Archwiliad, ystyriodd yr ExA Ganllawiau Cynllunio Basn Afon: Canllawiau statudol ar weithredu Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 (“y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr”) [ER 5.6.36]. Mae NRW wedi hysbysu y gallai croesfan ffos agored dros Nant Alltami efallai arwain at ddirywio corff dŵr Nant Wepre ac y byddai felly angen bodloni gofynion dirymu’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr [ER 5.6.42]. Pan ddaeth yr Archwiliad i ben, roedd NRW o’r farn nad oedd y dystiolaeth a gyflwynodd yr Ymgeisydd [REP5-016] yn bodloni seiliau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr [ER 5.6.45] dros ddirymu. Roedd yr ExA yn cytuno â NRW nad oedd yr Ymgeisydd wedi dadlau’r achos dros ddirymu’n llwyddiannus ac felly na ddylid caniatáu dirymu [ER 5.6.77]. Mewn ymateb i’r pryderon a godwyd gan NRW, yn DL7 cynigiodd yr Ymgeisydd groesfan arall dros Nant Alltami mewn fersiwn amgen o’r dDCO [REP8-007] [ER 5.6.44]. Roedd yr opsiwn arall hwn yn golygu croesi Nant Alltami dros bont bibell wedi’i mewnblannu a fyddai’n atal cynnydd yn y perygl llifogydd o’r nant, yn cydymffurfio â gofynion NRW i adael digon o ‘le’ uwchlaw’r lefelau llifogydd cymeradwy a ddyluniwyd ac yn bodloni rheoliadau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr [ER 5.6.12]. Roedd yr ExA yn cytuno â NRW na fyddai croesfan pont bibell wedi’i mewnblannu’n gwrthdaro â’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac na fyddai angen caniatáu dirymu ar gyfer y groesfan honno [ER 5.6.78]. Casglodd yr ExA felly fod fersiwn dewis cyntaf yr Ymgeisydd o’r dDCP (Fersiwn Croesfan Ffos) yn annerbyniol am y rhesymau uchod [ER 10.1.1]. Casglodd yr ExA hefyd fod fersiwn amgen yr Ymgeisydd o’r dDCO (Fersiwn Pont Bibell Wedi’i Mewnblannu) yn osgoi mynd yn groes i’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a chasglodd yr ExA fod hyn yn bodloni’r profion o dan a105 Deddf 2008. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â’r casgliadau hyn.

4.13. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau’r ExA a’r pwysau a roddodd yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol i’r materion canlynol:

- Gwydnwch Newid Hinsawdd (pwysau niwtral) [ER 5.4 et seq.];
- Perygl Llifogydd, Adnoddau Dŵr, Halogi Tir (pwysau niwtral) [ER 5.6 et seq.] (ar sail croesi Nant Alltami drwy bibell wedi’i mewnblannu yn unol â Fersiwn Pont Bibell Wedi’i Mewnblannu’r dDCO);
- Landscape and Visual Amenity/ Design and Layout (Great negative weight) [ER 5.7 et seq.];
- Ansawdd yr Aer ac Allyriadau (yn cynnwys o lwch, mwg a stêm) (pwysau niwtral) [ER 5.10 et seq.]; a
- Traffig, Trafnidiaeth a Pholisi Rheoli Gwastraff (pwysau niwtral) [ER 5.11 et seq.].

4.14. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried y materion canlynol yn fwy manwl isod ond yn cytuno â chasgliad yr ExA o ran y pwysoli:

- Yr Achos Dros Fod Angen y Datblygiad (pwysau positif mawr iawn) [ER 5.2 et seq., 5.3 et seq.].

4.15. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried y materion canlynol yn fwy manwl isod ac wedi dod i gasgliadau a gyflwynir yn y paragraffau isod:

- Asesiad o'r Opsiynau Eraill;
- Bioamrywiaeth, Ecoleg a Chadwraeth Natur;
- Treftadaeth Ddiwylliannol;
- Sŵn a Dirgryniad; a
- Effeithiau Economaidd-Gymdeithasol (gan gynnwys Iechyd Pobl) / Defnydd Tir Amaethyddol / Goblygiadau Gwaith Mwynau / ac Effeithiau Cronnus Cyffredinol.

<u>Yr Achos Dros Fod Angen y Datblygiad ac Asesiad o'r Opsiynau Eraill</u>

*Ystyriaeth yr ExA o'r Achos dros fod Angen*

4.16. Er bod y Cais hwn i gael i benderfynu o dan a105 Deddf 2008, mae'r datganiadau NPS yn ddogfennau pwysig a pherthnasol ac mae'r ExA wedi eu hystyried yn llawn ynghyd â pholisïau a deddfwriaeth arall ar gyfer Cymru a Lloegr. Roedd yr ExA yn cydnabod bod EN-1 yn nodi ymrwymiad y Llywodraeth i gynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy a buddsoddiad mewn cynhyrchu ynni carbon isel ac mae EN-1 drafft yn cyfeirio at ymdrechion y Llywodraeth i ddatblygu modelau busnes i ysgogi defnyddio cyfleusterau dal a storio a defnyddio carbon ("CCUS") yn y DU [ER 5.2.5]. Nododd yr ExA fod darpariaethau presennol a'r dNPS yn ystyriaethau perthnasol yng Nghymru a Lloegr a hefyd, ar gyfer Cymru, bod PPW yn cael ei ystyried sydd â'r prif nod o sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at ddarparu datblygiadau cynaliadwy ac, ar gyfer Lloegr, bod darpariaethau cynaliadwyedd yn y fframwaith NPPF [ER 5.2.5 et seq] yn cael eu hystyried. Roedd yn rhaid i'r ExA hefyd ystyried Cynlluniau Datblygu Lleol cynghorau FCC a CWCC [ER 5.2.7].

4.17. Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cludo carbon (CO2) wedi'i ryddhau o ddiwydiant ac o gynhyrchu hydrogen carbon isel, gan gyfrannu at leihau allyriadau CO2 i gyrraedd targedau ymrwymol-gyfreithiol y DU o leihau 100% o allyriadau erbyn 2050 [ER 5.2.13]. Drwy ailddefnyddio'r seilwaith nwy naturiol presennol, mae costau cyfalaf y Datblygiad Arfaethedig yn llawer is: fel arfer mae gweithredwyr a'r Llywodraeth yn rhannu costau datgomisiynu ond, drwy ail-bwrpasu'r seilwaith, mae'r Datblygiad Arfaethedig yn osgoi'r angen i'w ddatgomisiynu gan felly leihau'r baich ar drethdalwyr y DU [ER 5.2.15].

4.18. Mae'r Datblygiad Arfaethedig hefyd yn hwyluso datblygu elfennau o'r Prosiect HyNet ehangach, gan gynnwys cynhyrchu, dosbarthu, storio a defnydd pendraw o hydrogen carbon isel er mwyn cynhyrchu pŵer yn hyblyg ar adegau pan na fydd digon o ynni adnewyddadwy'n cael ei gynhyrchu [ER 5.2.14]. Mae'r elfennau hydrogen carbon isel hyn y tu allan i sgôp y Datblygiad Arfaethedig a ffiniau'r Gorchymyn, ond yn dibynnu ar y biblinell CO2, a hebddi ni allai digon o hydrogen carbon isel gael ei gynhyrchu i ddatgarboneiddio allyriadau diwydiannol ar unrhyw raddfa sylweddol ar draws y rhanbarth [ER 5.2.17]. Mae'r Prosiect HyNet ehangach hefyd yn cynnwys datblygiadau clwstwr cysylltiedig y disgwylir iddynt fod yn hybiau economaidd ar gyfer swyddi technoleg werdd [ER 5.2.14]. Mae'r Ymgeisydd yn dadlau y byddai dal a storio carbon ("CCS") ar gyfer y Prosiect HyNet

ehangach yn allweddol i gynorthwyo'r DU i bontio at economi carbon isel, cwrdd â tharged sero-net 2050 a datgarboneiddio clystyrau diwydiannol yn y Gogledd-Orllewin a Gogledd Cymru [ER 5.2.19].

4.19. At ei gilydd, roedd FCC a CWCC yn gefnogol i achos yr Ymgeisydd dros fod angen y Datblygiad gan dderbyn y byddai'r Datblygiad Arfaethedig a'r Prosiect HyNet ehangach yn cyfrannu at leihau carbon a chynorthwyo'r DU i gwrdd â tharged sero-net 2050 [ER 5.2.20]. Roedd FCC a CWCC hefyd mwy neu lai wedi cytuno y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn rhoi manteision clir a sylweddol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, gan dderbyn y byddai'n creu cyfleoedd yn y dyfodol (fyddai angen caniatâd ar wahân) i ddiwydiannau ddal eu carbon a chysylltu i'r Datblygiad Arfaethedig i'w gludo i storfeydd ar y lan [ER 5.2.23]. Roedd rhai gwrthwynebiadau gan Bartïon Budd ("IP") eraill am resymau diogelwch, natur heb ei brofi technoleg CCS, problemau asesu carbon ar bwynt ei gynhyrchu yn mynd yn groes i asesiadau cronnus, risgiau'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig ac amheuon am fesurau lliniaru [ER 5.2.25].

4.20. Gofynnodd yr ExA i'r Ymgeisydd roi eglurhad pellach o'r achos cyffredinol dros fod angen y Datblygiad Arfaethedig o'i gymharu ag ystyriaethau newid hinsawdd, gwybodaeth bresennol, ffurfiau naturiol (neu eraill) o ddal neu storio carbon ac a fyddai unrhyw newidiadau'n deillio o arloesi'n cynnig opsiynau eraill a fyddai'n rhoi'r un manteision newid hinsawdd â'r Datblygiad Arfaethedig [ER 5.2.28 - 5.2.29]. Casglodd yr ExA fod yr Ymgeisydd wedi cyflwyno achos da dros fod angen y datblygiad ac nad oedd yn gwrthdaro â darpariaethau'r NPS, datganiadau dNPS ar y gorwel, strategaeth ehangach y DU na pholisïau lleol [ER 5.2.30 et seq]. Roedd yr ExA hefyd wedi ystyried polisi Cymru gan gasglu y byddai'r achos ollgynhwysol dros fod angen y datblygiad yn gyson ag amcanion PPW o gyfrannu at ddatblygiadau cynaliadwy a gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru [ER 5.2.40].

4.21. Roedd yr ExA wedi ystyried EN-1 oedd yn rhagweld defnyddio CCS a dNPS EN-1 sy'n nodi bod *"y Llywodraeth yn datblygu modelau busnes i ysgogi defnyddio cyfleusterau CCS a hydrogen yn y DU"* a hefyd bod *"taer angen am bob math o seilwaith hydrogen carbon isel fel y gall hydrogen chwarae ei ran yn y broses o bontio at sero-net"* [ER 5.2.34]. Roedd yr ExA yn argymell y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol fod eisiau ystyried datganiadau NPS diwygiedig Tachwedd 2023 [ER 3.3.18], y cyfeirir atynt yn y llythyr hwn fel datganiadau NPS 2024 ar ôl eu dynodi yn Senedd y DU ar 17 Ionawr 2024. Roedd yr ExA hefyd yn argymell y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol fod eisiau ystyried fframwaith NPPF diweddaraf Rhagfyr 2023 [ER 3.10.3]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried datganiadau NPS 2024 a'r NPPF yn 4.32 isod.

4.22. Casglodd yr ExA fod y datganiadau NPS a dNPS, PPW, strategaeth ddiweddaraf y DU ac ystod eang o bolisïau newid hinsawdd yng Nghymru a Lloegr yn cefnogi CCS [ER 5.2.42]. Casglodd yr ExA y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn helpu Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gwrdd â thargedau carbon cenedlaethol a chreu economi traws-DU wedi'i datgarboneiddio'n llawer cynt na heb y Datblygiad Arfaethedig [ER 5.2.43]. Roedd yr ExA hefyd yn cytuno y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cynorthwyo i ddarparu manteision economaidd-gymdeithasol sylweddol ar draws y DU [ER 5.2.39]. Casglodd yr ExA fod achos cryf dros fod angen y datblygiad a bod ystyried opsiynau eraill ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn fater gorgyffwrdd [ER 5.2.44]. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol, felly, ystyried yr achos dros fod angen y Datblygiad Arfaethedig ar y cyd ag asesu'r opsiynau eraill.

*Ystyriaeth yr ExA o'r Asesiad o'r Opsiynau Eraill*

4.23. Nododd yr ExA nad yw'r datganiadau NPS, o safbwynt polisi, yn cynnwys unrhyw ofyniad cyffredinol i ystyried opsiynau eraill ond mae'r Rheoliadau EIA yn gofyn bod ES yn cynnwys *"disgrifiad o'r opsiynau rhesymol eraill a ystyriwyd gan yr Ymgeisydd sy'n berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig a'i nodweddion penodol ynghyd ag amlinelliad o'r prif resymau dros ddewis yr opsiwn a ffafrir ar ôl ystyried effeithiau'r datblygiad ar yr amgylchedd".* Wrth ystyried yr holl opsiynau eraill ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, roedd yr ExA wedi ystyried holl bolisïau amgylcheddol cynlluniau LDP FCC a CWCC gan gasglu bod EN-11 (Lleindiroedd) LDP FCC a STRAT9 (Llain Las a Chefn Gwlad) LDP CWCC yn agweddau polisi lleol pwysig i unrhyw benderfyniad a fyddai'n goleuo dewis llwybr y biblinell, ynghyd â STRAT3 cynllun LDP CWCC (Ardaloedd Lleoli Aneddiadau Caer) [ER 5.3.3].

4.24. Mae EN-1 yn nodi'n glir, pan leolir NSIP mewn Llain Las yn Lloegr, bod prosiectau seilwaith ynni'n debygol o gynnwys 'datblygiad amhriodol' os yw'r datblygiad yn niweidiol i'r Llain Las a'r rhagdybiaeth polisi cynllunio cyffredinol yn ei erbyn felly'n berthnasol [ER 5.3.5]. Mae EN-1 hefyd yn nodi'n glir y gellir dynodi Lleindiroedd yn lleol, yng Nghymru, ac y bydd ganddynt yr un warchodaeth â Llain Las yn Lloegr, er eu bod yn ddynodiadau dros dro ac yn cael eu hadolygu gan yr awdurdod lleol fel rhan o'r broses o adolygu'r cynllun datblygu [ER 5.3.6]. Mae angen *"amgylchiadau arbennig iawn"* (NPPF) neu *"amgylchiadau eithriadol iawn"* (PPW) i gyfiawnhau datblygiad amhriodol mewn Llain Las neu Leindir: rhaid i ystyriaethau eraill wrthbwyso'r niwed a fyddai'n cael ei achosi gan y datblygiad amhriodol [ER 5.3.5]. Mae'r ExA yn rhoi pwysau mawr i unrhyw niwed i Lain Las neu Leindir ond yn nodi bod EN-1 yn datgan y gall seilwaith llinellol tanddaearol ond cael effaith gyfyngedig neu ddim effaith o gwbl ar bwrpasau sylfaenol y dynodiad [ER 5.3.5].

4.25. Roedd yr Ymgeisydd wedi asesu'r opsiynau eraill ym Mhennod 4 yr ES (Ystyried Opsiynau Eraill) Diwygiad C [REP7-038]. Casglodd yr Ymgeisydd nad yw'r opsiwn sylfaenol o 'wneud dim' yn berthnasol os yw'r DU i gwrdd â'i tharged sero-net yn 2050 oherwydd byddai allyriadau carbon o ffynonellau diwydiannol yng Ngogledd Cymru a Gogledd-Orllewin Lloegr yn parhau i fod yn ddi-ball [ER 5.3.9]. Cyflwynodd yr Ymgeisydd dystiolaeth o broses tri cham i ddod o hyd i lwybr addas i'r biblinell, gan ddewis llwybr coridor y De fel yr opsiwn a ffafrir yng ngham dau am resymau'n cynnwys: y cyfle mwyaf i gysylltu i allyriadau $CO_2$ eraill a sicrhau'r lleihad mwyaf mewn allyriadau $CO_2$; y lleiaf cymhleth i'w adeiladu; yn fwy tebygol o gynnig opsiynau llwybr a fyddai'n effeithio'n llai uniongyrchol ar ddynodiadau amgylcheddol rhyngwladol a chenedlaethol; a'r ateb mwyaf cost-effeithiol [ER 5.3.15]. Yng ngham tri, cafodd goridor 100m ei gynnwys yn y llwybr a ffafrir er mwyn gallu ystyried meini prawf cynllunio, defnydd tir, amgylcheddol a chymdeithasol penodol ac adnabod unrhyw broblemau peirianyddol, cost ac adeiladu [ER 5.3.16].

4.26. Roedd FCC a CWCC o'r farn bod yr opsiynau eraill ar gyfer llwybr y biblinell a ystyriwyd gan yr Ymgeisydd wedi cael eu hegluro'n iawn [ER 5.3.17]. Cyfeiriodd rai Partïon Budd at natur carbon-ddwys gwahanol fathau o gynhyrchu hydrogen yn y Prosiect HyNet ehangach, ond roedd yr ExA yn ystyried nad oedd hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig a hefyd y tu allan i sgôp yr Archwiliad [ER 5.3.18]. Cynigiodd rai Partïon Budd ac un o'r partïon eraill, Mr Stephen Gibbins, nad y llwybr a ddewiswyd o reidrwydd oedd yr un gorau ar gael [ER 5.3.19].

4.27. Roedd yr ExA o'r fath bod yr opsiwn 'gwneud dim' yn fan cychwyn priodol ar gyfer ES yr Ymgeisydd [ER 5.3.22]. Roedd yr Ymgeisydd wedi cyflwyno tystiolaeth ddigonol yn ystod yr Archwiliad bod yr opsiwn 'gwneud dim' yn groes i darged sero-net 2050 y DU, y Strategaeth

Datgarboneiddio Ddiwydiannol, Strategaeth Sicrwydd Ynni Prydain a Strategaeth Hydrogen y DU [ER 5.3.22].

4.28. Gofynnodd yr ExA gwestiynau pellach i'r Ymgeisydd am y posibilrwydd o lwybr byrrach a awgrymwyd gan Mr Steven Gibbins [AS-064] a fyddai efallai'n cael llai o effaith ar ardaloedd preswyl, a oedd yn hawdd ei gyrraedd ar gyfer y gwaith adeiladu, yn fyrrach ac a fyddai'n ymyrryd llai â hawliau tirfeddianwyr preifat [ER 5.3.23]. Roedd yr Ymgeisydd wedi dadlau bod y llwybr yn debyg i goridor strategol y Gogledd oedd wedi cael ei ddiystyru o ymgynghori'n statudol arno yn 2021 oherwydd nifer o gyfyngiadau a risgiau adeiladu, diffyg hyblygrwydd amlwg a chyfleoedd a fyddai'n cyflwyno risg sylweddol i lwybro'r biblinell newydd yn fanwl ac i'r rhaglen adeiladu o ganlyniad [REP7-038]. Roedd yr Ymgeisydd yn dadlau bod yr opsiwn gorau wedi'i gynnig ar ôl ystyried holl sylwadau'r Partïon Budd a dderbyniwyd [ER 5.2.27].

4.29. Roedd y llwybr a ddewisodd yr Ymgeisydd yn ystyried dynodiadau Llain Las yn Lloegr a dynodiadau Lleindiroedd yng Nghymru. Er bod y biblinell yn torri drwy dir Llain Las a Lleindir, casglodd yr ExA na fyddai elfen piblinell danddaearol newydd y Datblygiad Arfaethedig yn lleihau eu natur agored ac felly'n dod o fewn cyfyngiadau'r polisi cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer yr ardaloedd dynodedig hyn [ER 5.3.37]. Casglodd yr ExA felly nad oedd y biblinell danddaearol newydd a'r gwaith adeiladu dros dro'n 'ddatblygiad amhriodol' ar ôl ystyried y cyngor cyffredinol ar gyfer piblinellau nwy yn EN-1 [ER 5.3.39]. Fodd bynnag, byddai un AGI (Ince) a dwy orsaf BVS (Rock Bank a Mollington) yn cael eu lleoli ar dir Llain Lais yn Lloegr a byddai un BVS (Aston Hill) yn cael ei lleoli ar Leindir yng Nghymru [ER 5.3.34]. Oherwydd eu maint a'u natur, ni fyddai'r rhain yn gwarchod natur agored y Llain Las na'r Lleindir a chasglodd yr ExA felly y byddent yn 'ddatblygiad amhriodol' [ER 5.3.35]. Derbyniodd yr Ymgeisydd y byddai'r AGI a'r gorsafoedd BVS yn effeithio ar natur agored y Llain Las a'r Lleindir ond gan ddadlau bod eu hangen i weithredu'r biblinell yn effeithlon a diogel ac nad oeddent felly'n gwrthdaro â phwrpasau dynodiadau o'r fath a eglurir ym mharagraff 138 y fframwaith NPPF na pharagraff 3.74 PPW [ER 5.3.41]. Rhaid i'r ExA ystyried a oes unrhyw *"amgylchiadau arbennig iawn"* (NPPF) ac *"amgylchiadau eithriadol iawn"* (PPW) a fyddai'n gwrthbwyso'r niwed i'r Llain Las yn Lloegr a'r Lleindir yng Nghymru [ER 5.3.42]. Nododd yr ExA nad oedd FCC a CWCC wedi gwrthwynebu i'r dadleuon *"amgylchiadau arbennig iawn"* ac *"amgylchiadau eithriadol iawn"* a roddwyd gerbron gan yr Ymgeisydd ar gyfer Cymru a Lloegr yn y Datganiad Cynllunio [ER 5.3.43].

4.30. Penderfynodd yr ExA na fyddai 'gwneud dim' yn realistig ar gyfer cwrdd â tharged sero-net 2050 y DU [ER 5.3.47]. Casglodd yr ExA fod ES yr Ymgeisydd wedi nodi'n fanwl yr egwyddorion cyffredinol dros benderfynu ar goridor terfynol llwybr y biblinell gan ddangos bod opsiynau eraill wedi cael eu diystyru'n briodol ar sail yr arfarniad cychwynnol [ER 5.3.49]. Casglodd yr ExA hefyd nad oedd unrhyw sail gref dros gasglu y byddai unrhyw opsiwn arall oedd heb ei asesu gan yr ES yn cynnig canlyniad amgylcheddol gwell yn y pen draw [ER 5.3.50]. Casglodd yr ExA fod achos yr Ymgeisydd yn un cryf ac yn darbwyllo'n dda gan dderbyn nad oes unrhyw opsiynau eraill hyfyw i'r llwybr a ffafrir a fyddai'n cynnig opsiwn amlwg ffafriol yn nhermau amgylcheddol [ER 5.3.51]. Roedd yr ExA wedi priodoli pwysau mawr iawn i'r niwed a fyddai'n cael ei achosi gan y 'datblygiad amhriodol' yn y Llain Las a'r Lleindir, yn unol â chyngor yn EN-1 [ER 5.3.53]. Penderfynodd yr ExA y byddai'r ddadl dros *"amgylchiadau arbennig iawn"* (NPPF) ac *"amgylchiadau eithriadol iawn"* (PPW) ond yn bodoli pe bai ystyriaethau eraill yn gwrthbwyso natur amhriodol y datblygiad ac unrhyw niwed arall yn deillio ohono, yn glir [ER 7.2.8]. At ei gilydd, ar ôl ystyried yr achos dros fod angen y Datblygiad Arfaethedig, casglodd yr ExA fod amgylchiadau arbennig iawn ac eithriadol iawn wedi cael eu dangos a fyddai'n caniatáu i'r prosiect fynd yn ei flaen er

gwaetha'r niwed yn codi o'i natur amhriodol a'r lleihad sylweddol yn natur agored yr ardaloedd Llain Las a Lleindir [ER 7.2.17]. Roedd yr ExA yn rhoi pwysau mawr iawn i'r niweidiau hyn o ganlyniad i'r AGI a'r gorsafoedd BVS uwchlaw'r ddaear [ER 7.2.18].

4.31. At ei gilydd felly, casglodd yr ExA fod yr Ymgeisydd wedi ystyried yr opsiynau eraill yn ddigonol a chymesur ar gyfer Cymru a Lloegr [ER 5.3.54]. Derbyniodd yr ExA fod yr achos dros fod angen y datblygiad yn un cryf ac yn cario pwysau mawr o blaid y Datblygiad Arfaethedig [ER 5.3.54].

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol ar yr Achos dros fod Angen y Datblygiad ac Asesiad o'r Opsiynau Eraill*

4.32. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y dylid penderfynu'r Datblygiad Arfaethedig o dan a105 Deddf 2008 ond bod y datganiadau NPS, yn enwedig EN1 ac EN-4, yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol i'r Cais. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi ystyried datganiadau NPS 2024 law yn llaw â datganiadau 2011. Mae EN-1 2024 yn nodi, er mwyn cyrraedd targed sero-net 2050 y DU, bod angen llawer mwy o seilwaith ynni newydd gan gynnwys *"seilwaith i ddal, cludo a storio carbon deuocsid*" [2024 EN-1 2.3.4]. Mae EN-1 2024 hefyd yn cyfeirio at fod angen *"addasu'r rhwydweithiau presennol neu adeiladu rhai newydd i integreiddio hydrogen carbon isel yn y system er mwyn gallu cludo a storio carbon deuocsid*" [2024 EN-1 2.3.8]. Mae EN-1 2024 hefyd yn disgrifio bod *"angen taer"* am seilwaith CCS a bod *"yr Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu y dylid rhoi pwysau mawr i'r angen hwn wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd datblygu o dan Ddeddf Gynllunio 2008"* [2024 EN-1 3.2.7]. Yn olaf, mae EN-1 2024 yn nodi bod *"opsiynau eraill yn lle seilwaith CCS newydd ar gyfer cyrraedd sero-net erbyn 2050 yn brin"* [2024 EN-1 3.5.9]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod yr achos dros fod angen y Datblygiad Arfaethedig wedi'i wneud yn briodol, ac er y bydd yn cael ei benderfynu o dan a105, bod y datganiadau NPS yn dal i fod yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol, gan gynnwys datganiadau NPS newydd 2024. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi ystyried fframwaith NPPF diwygiedig Rhagfyr 2023 a ddim yn credu bod unrhyw beth a fyddai'n ei harwain at benderfyniad gwahanol ar y Cais. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliad yr ExA fod yr achos dros fod angen y datblygiad yn cario pwysau mawr o blaid yn y cydbwysedd cynllunio, a gefnogir ymhellach gan EN-1 2024.

4.33. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA nad oes unrhyw dystiolaeth y byddai 'gwneud dim' yn opsiwn arall llwyddiannus i'r Datblygiad Arfaethedig. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA bod ystod o opsiynau eraill wedi eu hystyried yn iawn. Roedd Mr Stephen Gibbins wedi gwneud cyflwyniad ôl-Archwiliad [PIR-002] yn ail-ddatgan ei gynnig i adleoli llwybr y biblinell. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried y cyflwyniad ac yn fodlon bod y llwybr a ffafrir gan yr Ymgeisydd wedi'i ystyried yn briodol, a'r opsiynau eraill wedi eu hystyried yn llawn.

4.34. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA y bydd yr AGI yn Ince a'r tair BVS yn Rock Bank, Mollington ac Aston Hill yn effeithio ar natur agored y Llain Las a'r Lleindir. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA bod yr agweddau hyn ar y Datblygiad Arfaethedig yn 'ddatblygiad amhriodol'. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cytuno â'r ExA bod amgylchiadau arbennig ac eithriadol iawn wedi cael eu dangos a fyddai'n caniatáu i'r prosiect fynd yn ei flaen er y niwed i'r Llain Las a'r Lleindir. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod yr ExA wedi priodoli pwysau negyddol sylweddol i'r niwed i'r Llain Las a'r Lleindir yn y cydbwysedd cynllunio.

4.35. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn deall bod ble i leoli'r AGI a'r gorsafoedd BVS yn cael ei benderfynu gan leoliad y biblinell ac felly mai cyfyngedig iawn yw'r lleoliadau posib ar gyfer yr AGI a'r gorsafoedd BVS. Ym Mhennod 4 ei ES, mae'r Ymgeisydd wedi gwneud asesiad cynhwysfawr o nifer o opsiynau ar gyfer lleoli'r AGI yn Ince, gan nodi bod lleoliad AGI yn cael ei benderfynu yn ôl gallu manteisio ar gyfleoedd i gysylltu i allyriadau ar bwynt eu cynhyrchu, ac wedi ystyried effeithiau gweledol a defnydd tir, presenoldeb unrhyw gyfleustodau, mynediad a hefyd yr effaith bosib ar ddatblygiadau yn y dyfodol [REP7-038]. Mae lleoliad y gorsafoedd BVS hefyd yn berthnasol i faint o CO2 a allai gael ei ryddhau, pa mor gyflym, a sut y mae'n gwasgaru, ac mae'r Ymgeisydd wedi ystyried y peryglon i iechyd a diogelwch i sicrhau bod y gorsafoedd BVS yn cael eu lleoli ar sail dull 'mor isel ag y bo'n rhesymol bosib' a hefyd ar sail effeithiau tir a gweledol, topograffi, poblogaeth, dwysedd, hwylustod y mynediad, prif gyfeiriad y gwynt a nodweddion gwasgaru CO2 [REP7-038]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi ystyried yn briodol pob lleoliad posib arall ar gyfer yr AGI a'r gorsafoedd BVS sydd ar dir Llain Las a Lleindir, a'r holl rai eraill sydd y tu allan.

4.36. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwerthfawrogi y byddai maint a màs yr AGI a'r gorsafoedd BVS yn lleihau natur agored y Llain Las a'r Lleindir yn sylweddol ond yn ystyried y gallai'r mesurau lliniaru arfaethedig ar ffurf plannu sgrinio'r AGI a'r gorsafoedd BVS yn y pen draw. I sicrhau y lliniarir effaith weledol yr AGI a'r gorsafoedd BVS, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ychwanegu gofyniad ("R") at y DCO i gynyddu'r cyfnod ôl-ofal plannu i 25 mlynedd, hynny yw oes gyfan y Datblygiad Arfaethedig.

4.37. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi ystyried ystod o wahanol opsiynau a bod dyluniad y Datblygiad Arfaethedig yn ymgorffori gwaith plannu i liniaru a lleihau'r effaith ar natur agored y Llain Las a'r Lleindir. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cryfhau'r mesurau lliniaru drwy ychwanegu'r gofyniad at y DCO. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod yr ExA wedi asesu effeithiau gweledol yr AGI a'r gorsafoedd BVS ar y Llain Las a'r Lleindir ym Mhennod 5 adroddiad yr ExA 'Tirlun ac Amwynder Gweledol / Dyluniad a Chynllun Gosod Allan' ac yn cytuno â'r pwysau negyddol sylweddol a roddir gan yr ExA i'r mater hwn yn y cydbwysedd cynllunio. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA drwy gasglu bod yr opsiynau eraill wedi cael eu hystyried yn briodol a bod amgylchiadau arbennig ac eithriadol iawn i gyfiawnhau'r niwed i'r Llain Las a'r Lleindir, fel y mae'r Ymgeisydd wedi'i ddangos yn yr achos dros fod angen y datblygiad.

Bioamrywiaeth, Ecoleg a Chadwraeth Natur

4.38. Mae'r ExA wedi ystyried yr holl ddeddfwriaeth a pholisïau perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol ar gyfer Cymru a Lloegr yng nghyswllt bioamrywiaeth, ecoleg a chadwraeth natur. Mae EN-1 yn disgrifio'r egwyddor gyffredinol ar gyfer datblygu o osgoi niwed sylweddol i fioamrywiaeth, gan gynnwys drwy fesurau lliniaru, ystyried opsiynau eraill a chamau unioni priodol gan nodi bod yn rhaid rhoi pwysau priodol i faterion bioamrywiaeth [EN-1 5.3.7]. Mae dNPS EN-1 yn mynd yn bellach drwy amlinellu'r disgwyliad y dylai datblygwyr ystyried a oes cyfle i wneud gwelliannau er mwyn *"gadael yr amgylchedd naturiol mewn cyflwr llawer gwell na'i gyflwr blaenorol"* gan nodi y dylid cyflwyno, yn Lloegr, yr enillion bioamrywiaeth net ("BNG") disgwyliedig yn llawn fel rhan o gais [dNPS EN-1 4.5.1 et seq.]. Yng Nghymru, mae PPW yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ac yn Lloegr mae'r NPPF yn nodi y dylai'r system gynllunio ddarparu BNG lle bynnag y bo'n bosib [ER 5.5.2 et seq.]. Mae'r ExA hefyd wedi ystyried polisïau sirol a lleol sydd i gyd yn annog gwarchod a gwella bioamrywiaeth [ER 5.5.5]. Mae'r ExA yn nodi ymhellach mai safiad polisi cyfunol y DU ar lefel genedlaethol, ar gyfer Cymru a Lloegr, ac

yn lleol yw na ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd datblygu i unrhyw ddatblygiad a fyddai'n arwain at golli neu ddirywio coed hynafol a hynod oni bai bod budd y datblygiad yn y lleoliad hwnnw'n gwrthbwyso'r colledion i'r cynefin coetir yn glir [ER 5.5.7].

4.39. Mae'r Ymgeisydd wedi disgrifio'r effeithiau sylweddol tebygol ("LSE") ar fioamrywiaeth ym Mhennod 9 yr ES (Bioamrywiaeth) Diwygiad D [REP7-046], gan ddod i'r casgliad y byddai effeithiau niweidiol cymedrol neu niweidiol sylweddol, yn ystod y camau adeiladu ac yn niffyg mesurau lliniaru eilaidd, ar ystod o gynefinoedd a rhywogaethau [ER 5.5.14]. Fodd bynnag, mae'r Ymgeisydd wedi asesu y byddai'r effeithiau gweddilliol ar fioamrywiaeth, ar ôl cymryd camau lliniaru, naill ai'n ddibwys neu'n ansylweddol yn ystod y gwaith o adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad Arfaethedig [ER 5.5.17]. Mae'r Ymgeisydd hefyd wedi darparu strategaeth BNG ar gyfer Cymru a Lloegr fel rhan o gyflwyno ei achos gan nodi, fodd bynnag, nad yw'n ofynnol darparu BNG yn orfodol oherwydd bod y Cais wedi cael ei dderbyn i'w archwilio cyn dyddiad dechrau penodedig y darpariaethau perthnasol yn Neddf Amgylchedd 2021 sef Tachwedd 2025 [ER 5.5.21]. Hefyd, ar ôl cymryd camau lliniaru, mae'r Ymgeisydd yn credu y byddai'r effeithiau gweddilliol yn deillio o'r Datblygiad Arfaethedig mewn cyfuniad â'r effeithiau newid hinsawdd disgwyliedig naill ai'n fân-niweidiol neu'n ddibwys ac ansylweddol [ER 5.5.24]. Roedd yr Ymgeisydd yn cydnabod y byddai angen colli coed i hwyluso adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig [ER 5.5.18]. Disgrifir y senario waethaf un yn Atodiad 9-11 yr ES – Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Goedyddiaeth, Diwygiad D [REP7-107].

4.40. Roedd CWCC wedi tynnu sylw at bryderon am ddiffyg arolygon ecolegol ar gyfer rhai rhywogaethau tuag at ddechrau'r Archwiliad [ER 5.5.61]. Fodd bynnag, ar ôl adolygu ymhellach, roedd CWCC yn fodlon bod lefel y data ecolegol yn briodol ac roedd FCC hefyd yn derbyn bod yr arolygon a wnaed gan yr Ymgeisydd yn unol ag ymarfer gorau [ER 5.5.63]. Roedd y Datganiad o Dir Cyffredin ("SoCG") gyda Natural England ("NE") [REP8-022] ac NRW [REP7-261] yn cytuno y byddai un drwydded liniaru ar gyfer y prosiect cyfan i bob rhywogaeth a warchodir ar gyfer awdurdodaethau Cymru a Lloegr [ER 5.5.65]. Roedd y datganiadau SoCG hyn yn cadarnhau bod cytundeb ar y rhan fwyaf o faterion [ER 5.5.31].

4.41. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd mewn datganiadau SoCG gyda FCC [REP7-259] a CWCC [REP8-021] ei fod yn ceisio prynu tir ar gyfer ei strategaeth BNG ond nid oedd y cytundebau cyfreithiol hyn wedi eu cyrraedd erbyn i'r Archwiliad orffen [ER 5.5.32, ER 5.5.33]. Roedd yr Ymgeisydd a FCC wedi bod yn trafod ers tro erbyn i'r Archwiliad ddod i ben am lunio cytundeb a111 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel bod FCC yn creu a chynnal cynefin gwrychoedd a phyllau dŵr fel gwrthbwysiad cynefin [ER 5.5.32]. Roedd yr Ymgeisydd a FCC hefyd yn trafod, pan ddaeth yr Archwiliad i ben, llunio cytundeb a111 yn ei gwneud yn ofynnol i bartïon perthnasol lunio cytundebau a106 o dan TCPA, unwaith y byddai'r Ymgeisydd wedi prynu tir, fel y gallai'r Ymgeisydd greu cynefin coetir a'i gynnal am 30 mlynedd [ER 5.5.32]. Roedd dal yn rhaid i'r Ymgeisydd a CWCC gytuno ar delerau masnachol ar gyfer gwrthbwyso BNG ac roedd yr Ymgeisydd wedi awgrymu cynnwys gofyniad newydd yn y dDCO, oedd heb ei gytuno yn y SoCG terfynol [ER 5.5.33].

4.42. Roedd Coed Cadw, drwy gydol yr Archwiliad, wedi gwneud sylwadau ar yr effeithiau ar goed hynafol a hynod gan gyflwyno SoCG wedi'i arwyddo yn DL7 yn disgrifio'r pryderon am y Gofrestr Coetiroedd Hynafol, effaith sŵn a llygredd llwch a'r effaith uniongyrchol bosib i un coetir lle y byddai croesfan ddi-dyllu'n cael ei chreu [REP7-107]. Roedd Coed Cadw hefyd wedi dweud y dylid creu ardal glustog o 30m ar gyfer coetir hynafol ac mae'r Ymgeisydd wedi darparu ardal glustog o 15m, ac eithrio ardal glustog o 13m yn New Bridge Farm [5.5.29]. Yn y SoCG wedi'i arwyddo â FCC, mae FCC yn cytuno bod yr eithriad hwn yn

dderbyniol ar yr amod nad oes unrhyw waith ymwthiol yn digwydd y tu mewn i'r ardal glustog 13m, a bod ond angen mynediad i wyneb y tir [5.5.32]. Mae mesurau lliniaru ar gyfer y lleoliad hwn, sy'n cynnwys Datganiad Dull Coedyddiaeth, Cynllun Gwarchod Coed a monitro gan Glerc Gwaith Coedyddiaeth, wedi eu hamlinellu yn y Cynllun Lliniaru Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol ("OCEMP") ac yn cael eu sicrhau drwy R11 yn y dDCO [ER 5.5.29, ER 5.5.32]. Roedd Coed Cadw'n dadlau pan ddaeth yr Archwiliad i ben nad oedd yn cytuno â gadael i goed dresmasu o dan ardal glustog o 30m [ER 5.5.30].

4.43. Roedd yr ExA yn fodlon bod ceisiadau'n cael eu gwneud am y trwyddedau priodol ar gyfer rhywogaethau a warchodir [ER 5.5.66]. Roedd yr ExA hefyd yn fodlon, wrth ymateb i'r ymatebion ymgynghori, bod yr Ymgeisydd wedi cadarnhau y byddai Datganiad Dull Bioddiogelwch yn cael ei gynnwys gyda'r OCEMP yn rhoi sylw i bryderon am rywogaethau ymwthiol [ER 5.5.70]. Cytunodd yr ExA y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at golli cynefin ond y byddai'r effeithiau gweddilliol, ar ôl cymryd camau lliniaru, naill ai'n ddibwys neu ddim yn sylweddol yn ystod y camau adeiladu, gweithredol a datgomisiynu [ER 5.5.91]. Roedd yr ExA yn cydnabod nad yw darparu BNG eto'n orfodol yn Lloegr ar gyfer prosiectau NSIP ac yng Nghymru nad oes unrhyw fetrig wedi'i fabwysiadu ar gyfer BNG ond gan dderbyn bod y wybodaeth BNG a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn addas i ddeall lefel y gwelliannau ecolegol yng Nghymru a Lloegr [ER 5.5.71]. Nod dywededig yr Ymgeisydd ar ddiwedd yr Archwiliad oedd sicrhau BNG o 1% *"o leiaf"* mewn Cynefinoedd Blaenoriaeth yng Nghymru a Lloegr [REP8-024]. Casglodd yr ExA ei bod yn glir y byddai a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei defnyddio i sicrhau budd bioamrywiaeth net ("BNB") ar gyfer cynefinoedd gwrych a phwll dŵr blaenoriaeth yng Nghymru, BNB ar gyfer cynefin coetir blaenoriaeth yng Nghymru (gydag a106 o dan TCPA) a BNG ar gyfer yr holl gynefinoedd sy'n ofynnol yn Lloegr, ac yn fodlon y byddai hyn yn cael ei sicrhau [ER 5.5.83]. Casglodd yr ExA na fyddai BNG yn cael ei ddarparu i sicrwydd oni bai fod gofyniad yn cael ei gynnwys yn y dDCO yn cytuno â geiriad yr Ymgeisydd yn y ffurf a gyflwynir mewn datganiadau SoCG gyda FCC [REP7-259] a CWCC [REP8-021], gan ei fewnosod yn y rDCO [ER 5.5.96]. Roedd yr ExA yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi dewis ystod amrywiol o rywogaethau plannu a allai ffynnu yn amodau hinsawdd disgwyliedig y dyfodol ac yn fodlon y byddai rhywogaethau penodol a gwaith i reoli'r banc hadau yn y pridd yn cael ei sicrhau yn y Cynllun Rheoli Tirlun ac Ecolegol ("LEMP") o dan R11 y dDCO [ER 5.5.88]. Casglodd yr ExA fod yr holl LSE ar fioamrywiaeth wedi eu hystyried yn briodol, ac o gynnwys R yr Ymgeisydd yn y rDCO, bod bioamrywiaeth yn cario pwysau niwtral yn y cydbwysedd cynllunio [ER 5.5.100].

4.44. Nododd yr ExA, heb unrhyw ddyluniad manwl gorffenedig, na ellid cadarnhau'n llawn faint o wrychoedd a choed a fyddai'n cael eu colli ar draws ffiniau'r Gorchymyn [ER 5.5.39]. Nododd yr ExA hefyd fod yr Ymgeisydd wedi cyflwyno tystiolaeth o fod wedi ceisio osgoi cynefinoedd sensitif ac y byddai'n gwneud ymdrechion pellach yng ngham y dyluniad manwl i osgoi derbynyddion o'r fath, o dan R4 y dDCO [ER 5.5.27]. Byddai cyfanswm y colledion coed na ellid ei osgoi'n cael ei unioni drwy blannu coed newydd yng ngosodiadau AGI Fflint a Northop Hall ac yng ngorsafoedd BVS Aston Hill, Mollington, Rock Bank, Babell, Pentre Helygain a Cornist Lane [ER 5.5.42]. Roedd yr ExA yn fodlon, er y byddai'r senario waethaf un o golledion coed yn arwain at effeithiau niweidiol sylweddol, bod strategaeth liniaru'r Ymgeisydd, i'w sicrhau drwy R11 y dDCO, yn sylweddol [ER 5.5.90].

4.45. Casglodd yr ExA fod tystiolaeth o becyn o fesurau i warchod coetir hynafol, gan gynnwys arferion lliniaru ymwthiol ac anymwthiol, technegau tyllu a chysylltiad llinellol prin llwybr y biblinell â'r coetir [ER 5.5.49]. Roedd Adroddiad Asesu Effaith Coedyddiaeth, Diwygiad D [REP7-107] yr Ymgeisydd yn nodi na fyddai unrhyw golledion coetir hynafol; ar gyfer pob lleoliad lle'r oedd coed hynafol a hynod, byddai dulliau adeiladu di-dyllu'n cael eu defnyddio

er mwyn osgoi niwed, i'w sicrhau drwy'r OCEMP [REP7-292] [ER 5.5.40, 5.5.51]. Casglodd yr ExA, drwy greu ardal glustog o 15m ar gyfer coetir hynafol, fod yr Ymgeisydd fwy neu lai'n cydymffurfio â chynnwys Canllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol ("NPPG"), gan nodi nad yw'r cyngor hwn wedi'i fabwysiadu yng Nghymru mewn PPW na TAN ac nad yw ardal glustog gymeradwy Coed Cadw o 30m yn ardal sydd wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol yng Nghymru na Lloegr [ER 5.5.53, 5.5.55]. Roedd yr ExA yn cydnabod y byddai'r gwaith ar y biblinell, wrth ymyl New Bridge Farm, yn llawer agosach i'r coetir hynafol ond bod y pecyn o fesurau ynghyd â newid yn lefel y ddaear rhwng llwybr y biblinell a'r coetir hynafol yn galluogi'r ExA i gasglu bod y Datblygiad Arfaethedig yn annhebygol o wneud niwed i'r coetir hynafol yn New Bridge Farm nag unman arall ar hyd llwybr y biblinell [ER 5.5.50]. Roedd yr ExA yn fodlon y byddai'r gwaith adeiladu'n cael ei wneud yn unol â'r OCEMP ac yn cael ei sicrhau gan R5 y dDCO [ER 5.5.60]. Casglodd yr ExA, ar ôl cymryd camau lliniaru, y byddai'r risg i'r coetir hynafol yn fach iawn [ER 5.5.90]. Fodd bynnag, o dderbyn bod polisi cenedlaethol Cymru a Lloegr yn cydnabod na ellir byth ail-greu coetir hynafol, penderfynodd yr ExA bod unrhyw risg bosib i iechyd y coetir hynafol yn cario pwysau negyddol sylweddol yn y cydbwysedd cynllunio [ER 5.5.98].

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol ar Fioamrywiaeth, Ecoleg a Chadwraeth Natur*

4.46. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno a'r ExA fod methodoleg asesu'r Ymgeisydd yn briodol i wneud penderfyniadau ar ei sail [ER 5.5.89]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA y bydd yr effeithiau gweddilliol ar fioamrywiaeth naill ai'n ddibwys neu ddim yn sylweddol yn ystod y camau adeiladu, gweithredol a datgomisiynu, ar ôl cymryd camau lliniaru ac unioni a bod hyn yn cario pwysau niwtral yn y cydbwysedd cynllunio [ER 5.5.91]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried EN-1 NPS 2024 sy'n amlinellu'r disgwyliad bod prosiectau'n ystyried a cheisio ymgorffori BNG ac y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi pwysau i BNG lle bo hynny'n berthnasol [EN-1 4.6.3 2024]. Roedd yr Ymgeisydd wedi cadarnhau yn ei gyflwyniad ôl-Archwiliad dyddiedig 19 Rhagfyr 2023 ei fod yn parhau i weithio gyda CWCC ac FCC i adnabod lleoliadau gwrthbwyso priodol ac i ymrwymo i wrthbwyso ar gyfer BNG [PIR-005]. Dywedodd yr Ymgeisydd fod y cytundeb BNG drafft yn nwylo CWCC ar gyfer sylw. Roedd FCC wedi adnabod a chytuno ar leoliad arall i ddarparu budd BNB gwrychoedd ac roedd yr Ymgeisydd wedi cytuno a llofnodi penawdau telerau â'r tirfeddiannwr i ddarparu BNB coetir. Roedd y ddau gytundeb BNB drafft yn nwylo FCC ar gyfer sylw. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried bod yr ymgysylltu parhaus hwn yn golygu y bydd yn debygol iawn y llofnodir y cytundebau hyn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried bod BNG o 1% yn cael ei sicrhau gan R14 yn y DCO ac wedi dyrannu pwysau positif ysgafn i hyn yn y cydbwysedd cynllunio, gan nodi nad yw BNG yn ofyniad gorfodol ar hyn o bryd.

4.47. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod yr ExA yn fodlon bod y strategaeth unioni ar gyfer coed yn briodol [ER 5.5.90]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon y byddai mesurau unioni ar gyfer colledion coed na ellir eu hosgoi'n ddigonol ac yn cael ei sicrhau gan R4 y rDCO. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cryfhau'r mesurau lliniaru ymhellach drwy gynyddu'r ôl-ofal plannu i 25 mlynedd sef oes gyfan y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod yr ExA wedi rhoi pwysau negyddol sylweddol i'r colledion coed cyfan ond yn ystyried y dylid dyrannu pwysau negyddol cymedrol i'r colledion coed cyfan ar ôl ystyried y camau lliniaru sydd i'w sicrhau gan y dDCO. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod yr ExA yn rhoi pwysau mawr i'r risg bosib i iechyd y coetir hynafol ond hefyd yn nodi bod yr ExA yn disgrifio'r risg yma fel un fach [ER 5.5.98]. At ei gilydd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod natur gyfyngedig y bygythiad hwn i'r coetir hynafol, gyda mesurau lliniaru manwl, yn cario pwysau negyddol cymedrol yn y cydbwysedd cynllunio. Casgliad yr Ysgrifennydd

Gwladol at ei gilydd yw bod yr holl ystyriaethau bioamrywiaeth, ecoleg a gwarchod natur yn cario mân-bwysau negyddol yn y cydbwysedd cynllunio.

Treftadaeth Ddiwylliannol

4.48. Mae'r ExA wedi ystyried yr holl ddeddfwriaeth a pholisïau yng Nghymru a Lloegr yn ymwneud â materion treftadaeth ddiwylliannol. Mae EN-1 yn nodi *"y dylai fod rhagdybiaeth o blaid gwarchod asedau treftadaeth dynodedig a pho fwyaf pwysig yw'r ased dreftadaeth ddynodedig, y mwyaf ddylai'r rhagdybiaeth o blaid ei gwarchod fod. Unwaith y collir asedau treftadaeth ni ellir eu hail-greu ac mae eu colli'n cael effaith ddiwylliannol, amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol"* [EN-1 5.8.14]. Mae EN-1 hefyd yn cyfeirio at ystyried yr effeithiau ar asedau treftadaeth eraill heb eu dynodi ar y sail bod gan asedau bwysigrwydd treftadaeth sy'n haeddu cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau, er bod yr asedau'n llai gwerthfawr nag asedau treftadaeth dynodedig [EN-1 5.8.6]. Mae PPW yng Nghymru a'r NPPF yn Lloegr yn cynnwys rhagdybiaethau clir i ddiogelu asedau treftadaeth rhag niwed: yn y fframwaith NPPF, rhoddir *"pwysau mawr"* ar unrhyw niwed canlyniadol i ased ddynodedig.

4.49. Mae'r Ymgeisydd wedi asesu'r goblygiadau i asedau diwylliannol yn defnyddio cymysgedd o astudiaethau pen-desg, ymweliadau safle a data arolygon geoffisegol ym Mhennod 8 ei ES (Treftadaeth Ddiwylliannol) [REP7-044]. Nododd yr Ymgeisydd na fyddai'r rhan fwyaf o'r effeithiau gweddilliol ar asedau treftadaeth yn sylweddol oherwydd camau lliniaru drwy gofnodi manwl, neu ddiogelu *in situ* drwy osgoi. Fodd bynnag roedd yr Ymgeisydd wedi y byddai adnabod effaith weddilliol niweidiol gymedrol i ased heb ei dynodi, sef gweddillion angladdol posib o'r Oes Efydd, hyd yn oed drwy gofnodi manwl. Mae'r Adroddiad Gwerthusiad Archeolegol [REP4-267] yn disgrifio tystiolaeth o'r gweddillion angladdol Oes Efydd posib hyn mewn cyfran fawr o ffosydd a dyllwyd yn y rhan fwyaf gorllewinol o'r Datblygiad Arfaethedig rhwng Northop Hall a safle BVS Babell yn Sir y Fflint [ER 5.8.33].

4.50. Roedd Cadw, Gwasanaeth Cynghori Hanesyddol Llywodraeth Cymru, i ddechrau wedi nodi *"effaith bosib"* y Datblygiad Arfaethedig ar asedau hanesyddol [RR-007]. Roedd Cadw wedi cadarnhau na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael effaith uniongyrchol ar unrhyw asedau hanesyddol dynodedig na'u gosodiad, ar wahân i Gomin Cofrestredig Treffynnon a Thirlun o Bwysigrwydd Hanesyddol Eithriadol Mynydd Helygain, ac er y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol ar yr asedau hyn, y byddai'r effaith yn fân a ddim yn sylweddol [ER 5.8.20]. Yn ei SoCG, roedd Cadw hefyd wedi gofyn am fwy o waith tyllu ac wedi cadarnhau y gallai'r Ymgeisydd wneud hyn nes ymlaen o ystyried y problemau mynediad [REP6A-010]. Yn ei SoCG, nododd Historic England y byddai dau adeilad rhestredig yn cael eu heffeithio dros dro ond yn cytuno ag asesiad yr Ymgeisydd y byddai'r effaith niweidiol yn fach yn ystod y gwaith adeiladu ac ond yn effaith dros dro a ddim yn sylweddol [REP6A-009]. Roedd yr Ymgeisydd wedi cwblhau datganiadau SoCG gyda FCC [REP7-259] a CWCC [REP8-021] i gadarnhau eu cytundeb ar yr holl faterion treftadaeth ddiwylliannol.

4.51. Casglodd yr ExA fod yr Ymgeisydd wedi dylunio llwybr y biblinell i osgoi, a chyn belled ag y bo'n rhesymol bosib, i leihau unrhyw risg i asedau treftadaeth fel egwyddor gyffredinol [ER 5.8.46]. Daeth yr ExA i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn achosi unrhyw niwed gweddilliol sylweddol i asedau dynodedig gyda'r holl gamau lliniaru yn eu lle, yn unol ag ymatebion statudol a datganiadau SoCG [ER 5.8.29]. Cytunodd yr ExA â'r Ymgeisydd, ar ôl diogelu drwy gofnodi, y byddai effaith weddilliol niweidiol gymedrol o hyd i'r gweddillion angladdol Oes Efydd yn ystod y cam adeiladu [ER 5.8.35, ER 5.8.50]. Nid yw PPW a

dogfennau ategol fel TAN 24 ‘Yr Amgylchedd Hanesyddol’ yn rhoi cyngor penodol ar asedau heb eu dynodi yng Nghymru [ER 5.8.36]. Yn achos Lloegr, mae’r NPFF yn nodi bod niwed i asedau heb eu dynodi’n gydbwysedd o ystyried faint o niwed neu golled a fyddai’n cael ei achosi a phwysigrwydd yr ased dreftadaeth [ER 5.8.37]. Heb unrhyw ganllawiau penodol yn PPW, TAN na chynlluniau datblygu lleol ar gyfer Cymru, roedd yr ExA wedi cyfeirio at EN-1 sy’n berthnasol i Gymru gan fabwysiadu dull o ymdrin tebyg i’r fframwaith NPPF bod niwed i asedau treftadaeth heb eu dynodi’n gydbwysedd o ystyried faint o niwed neu golled a fyddai’n cael ei achosi a phwysigrwydd yr ased dreftadaeth [ER 5.8.51]. Casglodd yr ExA y byddai risg bosib o niwed i ased heb ei dynodi gan roi pwysau negyddol cymedrol i hyn oherwydd bod hyn dal yn bwysig oherwydd yr arwyddocâd diwylliannol lleol [ER 5.8.39, ER 5.8.51].

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol ar Dreftadaeth Ddiwylliannol*

4.52. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno a’r ExA fod llwybr y biblinell wedi’i ddylunio i osgoi a lleihau, cyn belled ag y bo’n rhesymol bosib, unrhyw ased dreftadaeth fel egwyddor gyffredinol [5.8.46]. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried na ddisgwylir i’r Datblygiad Arfaethedig achosi unrhyw niwed sylweddol i asedau dynodedig ond yn cydnabod y gallai fod niwed posib i weddillion angladdol Oes Efydd, sy’n ased heb ei dynodi, yng Nghymru.

4.53. Mae’r ExA yn glir bod y risg o effaith weddilliol niweidiol gymedrol i’r ased benodol heb ei dynodi yma, er y camau lliniaru, yn cario pwysau negyddol cymedrol yn y cydbwysedd cynllunio [ER 5.8.39, ER 5.8.51]. Noda’r Ysgrifennydd Gwladol fod yr ExA wedi cyfeirio at EN-1 a’r fframwaith NPPF wrth ddod i gasgliad ar yr ased heb ei dynodi gan nodi diffyg unrhyw bolisi penodol ar gyfer Cymru. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried PPW a TAN24 yn llawn ac yn ystyried, er na roddir unrhyw gyngor penodol ar asedau heb eu dynodi, bod digon o wybodaeth am asedau hanesyddol yn gyffredinol i lunio barn.

4.54. Mae PPW yn cynnwys gweddillion archeolegol yn ei ddiffiniad cyffredinol o ased hanesyddol gan nodi y gallai asedau sydd heb eu hadnabod yn ffurfiol eto gynnwys gweddillion archeolegol wedi eu claddu [PPW 6.1.3]. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod y gweddillion angladdol Oes Efydd yn weddillion archeolegol ac felly i’w hystyried o dan PPW. Mae PPW hefyd yn cadarnhau bod y system gynllunio’n cydnabod bod angen diogelu gweddillion archeolegol a’i fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio, p’un ai yw’r gweddillion yn heneb gofrestredig neu beidio [PPW 6.1.23]. Er nad yw PPW yn defnyddio terminoleg asedau heb eu dynodi, mae’n nodi *“mewn achosion o weddillion archeolegol llai pwysig, bydd angen i awdurdodau lleol roi pwysigrwydd cymharol y gweddillion a’u gosodiad yn y fantol gyda ffactorau eraill, gan gynnwys yr angen am y datblygiad arfaethedig”* [PPW 6.1.25]. Mae TAN24 yn pwysleisio y *“dylai’r awdurdod cynllunio lleol ymgynghori â’i gynghorydd archeolegol i drafod yr effaith, gan gynnwys maint a’r niwed posib y gallai’r datblygiad ei achosi i weddillion archeolegol a / neu ba mor ddigonol yw’r camau lliniaru a gynigiwyd”* [TAN24 4.9]. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyfeirio at y datganiad SoCG gyda FCC [REP7-259] sy’n cofnodi’r ymgysylltu a wnaed ar y Cais. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi cyfarfodydd a gohebiaeth gydag Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys ("CPAT") a fu’n gweithio gyda FCC a Cadw i benderfynu ar ardaloedd astudiaeth ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig ac mae’n fodlon bod yr awdurdod cynllunio lleol, sef FCC yn yr achos hwn, wedi ymgynghori â’r cynghorydd archeolegol ar y gweddillion archeolegol. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol o’r farn bod y SoCG gyda FCC yn adlewyrchu cyngor CPAT gan nodi hefyd bod cytundeb ar yr holl faterion treftadaeth ddiwylliannol, yn enwedig y bydd arbrofion tyllu ac ymgynghori ychwanegol â CPAT yn digwydd, gydag ail

gyfnod o waith tyllu ar ôl cael caniatâd a gofynion ‘cadw golwg’ os na fydd yr ail gyfnod o waith tyllu’n bosib [REP7-259].

4.55. Ar ôl ystyried y polisi perthnasol ar effaith y datblygiad ar asedau heb eu dynodi ac yn enwedig ar y gweddillion angladdol Oes Efydd yn Sir y Fflint, mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi pwysau negyddol cymedrol i faterion treftadaeth ddiwylliannol yn y cydbwysedd cynllunio.

<u>Sŵn a Dirgryniad</u>

4.56. Mae’r ExA wedi ystyried yr holl ddeddfwriaeth a pholisi ar gyfer Cymru a Lloegr yn ymwneud â materion sŵn a dirgryniad. O dan EN-1 rhaid asesu sŵn o waith adeiladu’n defnyddio egwyddorion y Safonau Prydeinig perthnasol (BS4142, BS6472 a BS8233) [ER 5.9.1]. Ar gyfer Cymru mae PPW a TAN11 a Chynllun Sŵn a Seinwedd Cymru 2018-2023 yn rhoi cyngor ar ddatblygiadau newydd a fyddai’n cynhyrchu sŵn neu’n dod i gysylltiad â ffynonellau sŵn [ER 5.9.2]. Yn achos Lloegr, nod yr NPPF a NPPG yw gwarchod buddiannau ansawdd bywyd yn ymwneud â datblygiadau newydd ac mae Datganiad Polisi Sŵn Lloegr hefyd yn berthnasol gan gyflwyno weledigaeth hirdymor y Llywodraeth ar gyfer rheoli sŵn yn effeithiol [ER 5.9.3]. Roedd yr ExA hefyd wedi ystyried polisïau lleol a sirol a deddfwriaeth yn gysylltiedig â sŵn a dirgryniad [ER 5.9.7].

4.57. Roedd yr Ymgeisydd wedi asesu’r effeithiau sŵn a dirgryniad sylweddol tebygol a fyddai’n gysylltiedig ag adeiladu, gweithredu a datgomisiynu’r Datblygiad Arfaethedig ym Mhennod 15 ei ES (Sŵn a Dirgryniad) [REP7-057]. Mae Pennod 15 yr ES yn cyfeirio at Safonau Prydeinig perthnasol, fel y noda EN-1, gan ddisgrifio y byddai niwed tebygol i rai derbynyddion lleol oddi wrth effaith sŵn ganolig neu uchel yn gysylltiedig â thechnegau gwaith gosod di-dyllu [REP7-057]. Mae’r Ymgeisydd yn nodi y byddai’r gwaith hwn yn digwydd ond yn achlysurol gan amlaf ac am gyfnodau byr, ond mewn chwe lleoliad disgwylir i waith gyda’r nos a thros nos bara hyd at bedair wythnos [ER 5.9.12]. Roedd yr Ymgeisydd wedi nodi y byddai derbynyddion yn ardaloedd preswyl Mollington, Sandycroft, Aston, Ewlo a Northop Hall yn profi effaith sŵn ganolig neu uchel gan achosi effeithiau niweidiol sylweddol hyd yn oed ar ôl cymryd camau lliniaru [ER 5.9.15]. Roedd yr Ymgeisydd wedi asesu na fyddai’r effeithiau dirgryniad yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu’n sylweddol ac na fyddai effeithiau sŵn y cam gweithredu’n sylweddol [ER 5.9.16].

4.58. Roedd CWCC wedi lleisio pryderon am weithgareddau dechrau a gorffen oedd wedi cael eu datrys yn ystod yr Archwiliad drwy ddiwygio’r dDCO a Chynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad Amlinellol, Diwygiad B [REP7-282]. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau eraill gan CWCC neu FCC erbyn i’r Archwiliad ddod i ben.

4.59. Roedd yr ExA wedi ystyried yr effeithiau sŵn a dirgryniad yn erbyn NPS EN-1 ac EN-4 gan gytuno bod yr Ymgeisydd wedi rhoi cyfrif da o’r holl effeithiau tebygol yn yr ES yn gyffredinol [ER 5.9.25]. Defnyddiwyd dull lliniaru sŵn ‘senario waethaf’ yn yr ES ym mhob lleoliad ac roedd yr ExA wedi ystyried bod hyn yn rhesymol i asesu’r effeithiau yn ystod y cam adeiladu [ER 5.9.29]. Roedd yr ExA hefyd yn fodlon bod senario waethaf resymol wedi’i defnyddio ar gyfer sŵn adeiladu oherwydd roedd yr asesiad o’r technegau gwaith gosod di-dyllu’n seiliedig ar ddefnyddio dulliau tyllu cyfeiriadol llorweddol [ER 5.9.33].

4.60. Casglodd yr ExA na fyddai, yn ystod y cyfnodau gweithredol, unrhyw effeithiau sŵn sylweddol i unrhyw dderbynnydd sensitif gan felly roi pwysau niwtral i sŵn yn ystod y gwaith

gweithredol [ER 5.9.16]. Casglodd yr ExA na fyddai unrhyw effeithiau dirgryniad sylweddol yn ystod camau adeiladu, gweithredol a datblygu'r Datblygiad Arfaethedig [ER 5.9.16, 5.9.27]. Fodd bynnag, roedd yr ExA wedi dod i'r casgliad y byddai sŵn o'r gwaith adeiladu'n tarfu'n sylweddol (effaith ganolig i uchel) ar ardaloedd preswyl Mollington, Sandycroft, Aston, Ewlo a Northop Hall, hyd yn oed ar ôl cymryd camau lliniaru gofalus [ER 5.9.39]. Roedd yr ExA wedi rhoi pwysau negyddol mawr i sŵn yn ystod y cam adeiladu, er y byddai'n dymor byr ac yn ystod cyfnodau penodol [ER 5.9.40].

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol ar Sŵn a Dirgryniad*

4.61. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried bod y sŵn a dirgryniad gweithredol yn ddibwys ac yn cytuno â'r ExA bod hyn yn cario pwysau niwtral yn y cydbwysedd cynllunio [ER 7.2.18]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried y byddai sŵn yn tarfu'n sylweddol ar rai ardaloedd preswyl yn ystod y gwaith adeiladu, hyd yn oed ar ôl lliniaru. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA bod sŵn yn ystod y gwaith adeiladu'n cario pwysau negyddol mawr [ER 7.2.18] ond hefyd yn ystyried y byddai'n dymor byr ac am gyfnodau penodol yn unig. Ar ôl ystyried yr holl effeithiau sŵn a dirgryniad yn ystod y camau adeiladu, gweithredol a datgomisiynu, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi pwysau negyddol cymedrol i sŵn a dirgryniad yn y cydbwysedd cynllunio.

<u>Effeithiau Economaidd-Gymdeithasol (gan gynnwys Iechyd Pobl) / Defnydd Tir Amaethyddol / Goblygiadau Gwaith Mwynau / ac Effeithiau Cronnus Cyffredinol</u>

4.62. Mae'r ExA wedi ystyried yr holl ddeddfwriaeth a pholisi ar gyfer Cymru a Lloegr o ran effeithiau economaidd-gymdeithasol, defnydd tir amaethyddol, goblygiadau gwaith mwynau ac effeithiau cronnus cyffredinol.

*Effeithiau Economaidd-Gymdeithasol (gan gynnwys ar Iechyd Pobl)*

4.63. Mae EN-1 yn nodi y dylai'r ES asesu'r holl effeithiau ar bobl ar gyfer pob elfen o'r prosiect, ar lefel leol a rhanbarthol, gan gynnwys effeithiau ar iechyd, creu gwaith, cyfleoedd hyfforddiant, gwasanaethau lleol ychwanegol, gwella seilwaith lleol, cyfleusterau addysg / ymwelwyr, effeithiau ar dwristiaeth ac effaith yr amrywiol fewnlifiad o weithwyr yn ystod y gwahanol gamau [ER 5.12.1]. Ar gyfer Cymru, mae PPW yn annog cynnwys y gymuned leol ac ystyried anghenion, dyheadau, iechyd a lles yr holl bobl er mwyn gwella'r ymdeimlad o gymuned, fel y mae Dyfodol Cymru: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 [ER 5.12.3]. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ("WBFGA") yn trafod gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac mae'r ExA wedi ystyried hyn ar gyfer Cymru [ER 5.12.10]. Yn achos Lloegr, mae NPPF yn nodi *"y dylai polisïau a phenderfyniadau anelu at greu llefydd iach, cynhwysol a diogel"* gan roi ffocws ar gefnogi buddiannau economaidd [ER 5.12.4]. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol FCC a CWCC yn gofyn bod datblygiadau'n creu llefydd diogel a hygyrch sy'n annog a chefnogi iechyd da, lles a chydraddoldeb [ER 5.12.9].

4.64. Roedd yr Ymgeisydd wedi asesu ystod o ffactorau iechyd ac economaidd-gymdeithasol ym Mhennod 16 (Poblogaeth ac Iechyd Pobl) ei ES, Diwygiad C [REP7-059] gan roi cyd-destun economaidd darlun mwy yn Atodiad B yr ES – Effeithiau Economaidd Posib Prosiect HyNet y Gogledd-Orllewin [REP1-046]. Roedd yr Ymgeisydd wedi ystyried ystod o ffactorau ar iechyd pobl oddi wrth y camau adeiladu a gweithredol, gan gynnwys ansawdd aer, sŵn, gweithgarwch corfforol a chyfleoedd gwaith [ER 5.12.20].

4.65. Casglodd yr Ymgeisydd y disgwylir i waith gyda'r nos a thros nos, mewn rhai lleoliadau, bara am bedair wythnos ac y bydd y sŵn yn effeithio ar iechyd pobl ac yn debygol o achosi effaith niweidiol sylweddol ar iechyd pobl yn ystod y cam adeiladu [ER 5.12.22]. Casglodd yr Ymgeisydd fod defnyddwyr cyfleusterau hamdden gwarchodfa natur Coetir Cymunedol Penarlâg ac Ewlo, a rhandiroedd cymunedol yn Upper Aston Hall Lane, yn debygol o brofi effeithiau niweidiol sylweddol drwy orfod cerdded yn bellach a chael llai o fynediad yn ystod y cam adeiladu [ER 5.12.23]. Roedd yr Ymgeisydd wedi dadansoddi'r effeithiau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus ("ProW") gan asesu, mewn gwahanol rannau o'r Datblygiad Arfaethedig, y byddai'n achosi oedi dros dro i siwrneiau oherwydd y cynnydd posib mewn traffig adeiladu, colli gwerth amwynder dros dro oherwydd y gwaith adeiladu, gwaith tyllu agored yn torri ar draws y llwybrau ac effeithiau niweidiol sylweddol ar gerddwyr, beicwyr a merlotwyr o ganlyniad [ER 5.12.24 – 5.12.28]. Casglodd yr Ymgeisydd fod yr effeithiau gweddilliol yn ystod y cam adeiladu naill ai'n niwtral neu ddim yn sylweddol, heblaw defnyddwyr llwybrau PRoW 309/FP3/1 a 309/BR4/1, preswylwyr Canolfan Ofal a Chartref Nyrsio Thorton Manor, disgyblion a staff Ysgol St Oswald, defnyddwyr Ysgol Gynradd Sirol Sandycroft a defnyddwyr Parc Anifeiliaid Greenacres a fyddai'n profi effeithiau niweidiol sylweddol, er yn rhai dros dro [ER 5.12.31]. Roedd yr Ymgeisydd wedi disgrifio ystod o risgiau posib ond wedi penderfynu na fyddai unrhyw LSE o ddamweiniau mawr neu faterion diogelwch eiddo a phobl [ER 5.12.38]. O ran yr effeithiau economaidd cyffredinol, roedd yr Ymgeisydd wedi dadlau bod y Prosiect HyNet ehangach yn cynnig buddsoddiadau sylweddol o tua £17.7 biliwn a gwariant gweithredol o £29.1 biliwn yn y cyfnod hyd at 2050 [ER 5.12.34].

4.66. Roedd FCC a CWCC mwy neu lai'n fodlon â haeddiant achos economaidd-gymdeithasol yr Ymgeisydd [ER 5.12.36]. Roedd FCC wedi gofyn i'r Ymgeisydd uwchraddio'r llwybr ceffyl a PRoW 309/10/30 i wyneb tarmac fel bo'n addas ar gyfer traffig adeiladu [ER 5.12.36]. Roedd amrywiol bartïon budd wedi gwneud cyflwyniadau manwl yn ymwneud ag ardaloedd tir a busnesau penodol [ER 5.12.37] a rhai wedi lleisio pryder am y posibilrwydd o ffrwydro a pheryglon diogelwch yn yr ardaloedd gwaith yn ystod y cam adeiladu [ER 5.12.38]. Roedd CF Fertilisers [RR-081] wedi nodi bod y biblinell newydd a'r derfynell AGI yn Ince yn agos iawn i dir oedd yn destun parth effaith Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr ("COMAH") [ER 5.12.39]. Fodd bynnag mae'r SoCG rhwng yr Ymgeisydd a CF Fertilisers [REP4-055] yn nodi nad yw'r safle hwn mwyach yn destun parth effaith COMAH ac nid oedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ("HSE") wedi codi unrhyw wrthwynebiad ynghylch hyn [REP7-314 a REP8-045]. Roedd yr Ymgeisydd [REP8-035] wrth ymateb i bryderon diogelwch y partïon budd wedi cadarnhau bod y risg erydu i systemau piblinell CO2 yn ddigon hysbys ac yn deall y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio â ffiniau manwl ar gyfer yr holl baramedrau gweithredol [ER 5.12.84]. Roedd Cyfeillion y Ddaear Lerpwl ("LFoE") wedi cyfeirio at amcanion y WBFGA gan nad yw'r Datblygiad Arfaethedig yn cofleidio ysbryd yr amcanion hyn oherwydd dulliau darparu model busnes lefel-uchel 'Eni' (rhiant-gwmni honedig yr Ymgeisydd) [REP7-315] [ER 5.12.40].

4.67. Gofynnodd yr ExA amrywiol gwestiynau am fanteision economaidd-gymdeithasol dywededig ehangach y Datblygiad Arfaethedig [ER 5.12.55]. Roedd yr ExA yn cydnabod y byddai cyfleoedd cyflogaeth y gwaith adeiladu'n cael ystod o effeithiau positif sylweddol [ER 5.12.55]. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn awyddus i wneud y mwyaf o fanteision economaidd y Datblygiad Arfaethedig o ran effeithiau cadwyn gyflenwi a'i fod wedi ymgysylltu â 250 o fusnesau lleol a chenedlaethol [ER 5.12.56]. Cyflwynodd yr Ymgeisydd dystiolaeth o hyrwyddo gofyniad 'cynnwys lleol' yn y gwahoddiad i dendro ar gyfer contractwyr adeiladu a fyddai'n bidio am gontract y biblinell ac y byddai'n ystyried hyn fel rhan o'r gwerthusiadau technegol a masnachol cyn dyfarnu unrhyw gontract [ER 5.12.57].

Mae'r Ymgeisydd yn aelod o'r Consortiwm HyNet a fu'n gweithio'n gydweithredol o dan arweinyddiaeth Prifysgol Caer ynghyd â Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Peirianneg Adeiladu i drafod creu swyddi medrus ar gyfer y gymuned leol a datblygu rhaglen brentisiaethau HyNet beilot [ER 5.12.58]. Mae'r Ymgeisydd hefyd wedi cyfarfod yn rhagweithiol â darparwyr addysg lleol i drafod y datblygiad a'r cyfle i ryngweithio ar y prosiect a / neu gyda rhaglenni allgymorth presennol yr Ymgeisydd sy'n cynnig cyfleoedd addysgol i ysgolion ar draws ardal Gogledd Cymru drwy ddarparu addysg amgylcheddol a thrwy ganolfan addysg DangerPoint [ER 5.12.60].

4.68. Casglodd yr ExA fod yr Ymgeisydd wedi asesu'r effeithiau ar boblogaeth ac iechyd pobl yn gywir ym Mhennod 16 Diwygiad C [REP7-059] yr ES, yn defnyddio methodolegau ac ardal astudiaeth briodol [ER 5.12.72]. Casglodd yr ExA fod cytundeb rhwng yr holl bartïon technegol perthnasol a fu'n rhan o'r Archwiliad ar yr effeithiau poblogaeth ac iechyd pobl [ER 5.12.54]. Cytunodd yr ExA y byddai rhai asedau cymunedol, eiddo preifat a busnesau lleol yn profi effeithiau niweidiol cymedrol neu sylweddol, hyd yn oed ar ôl cymryd camau lliniaru, yn ystod y cyfnod adeiladu oherwydd sŵn neu waith adeiladu dros dro arall [ER 5.12.73]. Casglodd yr ExA fod y sŵn a'r tarfu a'r effeithiau ar iechyd pobl yn ystod y cyfnodau adeiladu'n cario pwysau negyddol mawr yn y cydbwysedd cynllunio [ER 7.2.18]. Roedd yr ExA yn cytuno â'r Ymgeisydd nad oedd angen uwchraddio'r llwybr ceffyl a PRoW 309/10/30 er mwyn adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig ac y byddai'n ofyniad beichus [ER 5.12.42]. Roedd yr ExA yn fodlon, o ystyried yr ymateb gan HSE, y byddai'r buddiannau diogelwch yn cael eu parchu o ran y tir a oedd yn destun parth effaith COMAH [ER 5.12.69]. Casglodd yr ExA y byddai camau lliniaru priodol a digonol yn cael eu sicrhau drwy'r dDCO ac na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol o ddamweiniau neu faterion diogelwch eiddo a phobl gan roi pwysau niwtral i hyn yn y cydbwysedd cynllunio [ER 5.12.87].

4.69. Derbyniodd yr ExA fod effeithiau positif economaidd-gymdeithasol 'darlun mwy' yn gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig a'r Prosiect HyNet ehangach [ER 5.12.61]. Nododd yr ExA y byddai'r rhan fwyaf o'r gwariant adeiladu ar gyfer y Prosiect HyNet ehangach yn cael ei wneud yn y Gogledd-Orllewin ond y byddai'r gwariant ar gyfarpar yn fwy gwasgaredig [ER 5.12.62]. Roedd yr ExA yn cydnabod y byddai tua 5,979 o swyddi blynyddol yn cael eu creu yn ardal y Gogledd-Orllewin a 11,259 ar draws y DU yn gyffredinol o ganlyniad i'r Prosiect HyNet ehangach gan gydnabod bod hyn yn cynnig manteision economaidd-gymdeithasol sylweddol iawn yn rhanbarthol a chenedlaethol [ER 5.12.64]. Byddai enillion Gwerth Ychwanegol Gros y gwariant ar y Prosiect HyNet ehangach yn tua £16.9 biliwn i'r Gogledd-Orllewin a £30.5 biliwn i'r DU yn gyffredinol [REP1-046]. Mae'r ExA yn cydnabod bod y Prosiect HyNet ehangach yn gyfle 'mewn cenhedlaeth' i ddatgarboneiddio'r economi a chreu manteision economaidd sylweddol gan nodi y byddai'r Datblygiad Arfaethedig wedi'i gysylltu'n annatod i sicrhau bod amcanion a manteision y Prosiect HyNet ehangach yn cael eu darparu [ER 5.12.67]. Casglodd yr ExA fod ystod y manteision economaidd o'r Prosiect HyNet ehangach, yn rhanbarthol a chenedlaethol, yn sylweddol gan roi pwysau mawr iawn i hyn yn y cydbwysedd cynllunio [ER 7.2.21].

*Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas*

4.70. Mae EN-1 yn cynghori y dylai Ymgeiswyr geisio lleihau effeithiau ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas ("BMV") (a ddiffinnir fel tir graddau 1, 2 a 3a yn y system Dosbarthiad Tir Amaethyddol) a defnyddio tir o ansawdd salach yn ei le [EN-1 5.10.8].

4.71. Asesodd yr Ymgeisydd effaith y Datblygiad Arfaethedig ar dir amaethyddol BMV ym Mhennod 11 (Tir a Phriddoedd) ei ES [REP7-050]. Roedd Pennod 11 yr ES yn adnabod bod 73% o'r samplau pridd a gasglwyd o fewn Ffin Seilwaith y Gwaith Adeiladu Newydd yn BMV a bod y posibilrwydd o golli a dirywio pridd BMV wrth y gosodiadau AGI a'r gorsafoedd BVS yn effaith niweidiol gymedrol sylweddol y Datblygiad Arfaethedig [ER 5.12.14]. Mewn llefydd eraill ar hyd y llwybr, byddai maint yr effaith yn cael ei liniaru drwy godi'n ofalus, trin ac ail-ddefnyddio'r gwahanol briddoedd amaethyddol, a fyddai'n cael ei gofnodi mewn Cynllun Rheoli Pridd ("SMP") yn yr OCEMP [ER 5.12.14]. Ar ôl lliniaru, dywedodd yr Ymgeisydd y byddai tir BMV ond yn cael ei golli'n barhaol wrth y gosodiadau AGI a'r gorsafoedd BMV sy'n cael effaith niweidiol gymedrol [ER 5.12.16]. Dadleuodd yr Ymgeisydd hefyd ei fod wedi cyflwyno pecyn osgoi a lliniaru effeithiol ar hyd llwybr y biblinell i osgoi colli mwy o BMV [ER 5.12.44].

4.72. Derbyniodd yr ExA fod yr SMP a ddefnyddiwyd yn sail ar gyfer y Cynllun Lliniaru Amgylcheddol Adeiladu ("CEMP") terfynol yn rheoli gymaint â phosib y risg o ddifrod i strwythur y pridd ac y byddai'r dyluniad manwl yn ystyried lleoliad y priddoedd BMV gan geisio lleihau effeithio arnynt a / neu osgoi'r ardaloedd hyn lle bynnag y bo'n bosib [ER 5.12.76]. Casglodd yr ExA na fyddai'r dDCO yn atal mynediad i dirfeddianwyr dros y rhannau o'r biblinell oedd o dan y ddaear ar ôl y gwaith adeiladu a bod y Datblygiad Arfaethedig wedi'i ddylunio i ganiatáu mynediad gan beiriannau fferm a thraffig sy'n defnyddio'r tir ar hyn o bryd [ER 5.12.75. Fodd bynnag,  noda'r ExA hefyd pe bai angen peiriannau trwm iawn y gellid cyfyngu ar eu defnyddio os gallent achosi difrod i'r biblinell [ER 5.12.75]. Casglodd yr ExA y byddai peth tir amaethyddol BMV yn cael ei golli lle'r oedd bwriad i leoli'r gosodiadau AGI a'r gorsafoedd BVS, hyd yn oed gyda chamau lliniaru o dan y dDCO [ER 5.12.77]. Roedd yr ExA wedi rhoi pwysau negyddol cymedrol i'r mater hwn oherwydd mai dim ond ychydig o dir a fyddai'n cael ei effeithio a byddai tir BMV arall wedi'i effeithio gan y Datblygiad Arfaethedig yn parhau i fod ar gael at ddibenion amaethyddol [ER 5.12.78].

*Goblygiadau Gwaith Mwynau*

4.73. Roedd yr Ymgeisydd wedi asesu tir y Datblygiad Arfaethedig yn erbyn yr Ardaloedd Diogelu Mwynau ("MSA") yn ardaloedd gweinyddol FCC a CWCC yn Atodiad 11.3 yr ES, Asesiad Adnoddau Mwynau Rhannau 1 a 2, Diwygiad A [REP7-120] a [REP7-121].

4.74. Roedd yr ExA yn cydnabod bod ardaloedd MSA yn bresennol ac wedi ystyried polisi lleol sy'n diogelu'r safleoedd hyn [ER 5.12.70]. Casglodd yr ExA fod yr LSE a aseswyd yn yr ES yn gywir a bod datblygiadau oedd yno'n barod eisoes yn 'steryllu' yr ardaloedd hyn ac y byddai effeithiau i'r ardaloedd MSA fel arall yn amherthnasol, gan nodi nad oedd unrhyw bryder sylweddol yn codi o gyflwyniadau LIR FCC na CWCC [ER 5.12.70]. Casglodd yr ExA nad oedd unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol i ardaloedd MSA i gyfrif yn erbyn y Datblygiad Arfaethedig [ER 5.12.79] gan roi pwysau niwtral i oblygiadau gwaith mwynau yn y cydbwysedd cynllunio [ER 7.2.18].

*Effeithiau Cronnus Cyffredinol*

4.75. Roedd yr Ymgeisydd wedi asesu effaith y Datblygiad Arfaethedig ar y cyd â datblygiadau eraill ym Mhennod 19 (Effeithiau Cyfunol a Chronnus), Diwygiad C [REP7-065] ei ES. Nid oedd yr Ymgeisydd wedi adnabod unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol ym Mhennod 19 [REP7-065] ei ES nac unrhyw effeithiau cyfunol a chronnus sylweddol [ER 5.12.71].

4.76. Gofynnodd yr ExA gwestiynau i'r Ymgeisydd am ei fethodoleg o asesu effeithiau cronnus [ER 5.12.89]. Dywedodd yr Ymgeisydd nad oedd adolygu darpar ddatblygiadau eraill ar ôl iddo gyflwyno ei ES yn rhywbeth yr oedd yn bwriadu ei wneud fel rhan o'i fethodoleg a bod yn rhaid tynnu llinell mewn amser er mwyn cwblhau'r broses o asesu effeithiau cronnus gan gyfeirio'r ExA at Nodyn Cynghori 17 yr Arolygiaeth Gynllunio: Asesiad o'r Effeithiau Cronnus (Awst 2019) sy'n nodi *"mae'n ddealledig y bydd angen i ymgeiswyr orffen eu gwaith asesu ar ryw bwynt mewn amser er mwyn gallu cynhyrchu'n derfynol a chyflwyno cais"* [ER 5.12.92]. Roedd yr Ymgeisydd wedi ymgynghori â'r cyhoedd a'r holl ymgyngoreion ar y rhestr hir o ddatblygiadau a gyflwynwyd yn Adroddiad Ymgynghori DCO HyNet [APP-031]. Roedd yr Ymgeisydd wedi parhau i ymgynghori'n rheolaidd â FCC a CWCC, fel y cofnodir hyn yn natganiadau SoCG y ddau gyngor [REP7-259] a [REP8-021]. Mae datblygiad 22/03693/FUL, Encirc Glass, yn un digon agos a digon mawr i fod â photensial i achosi Effeithiau Rhyng-Brosiect sylweddol ond roedd CWCC wedi'i dderbyn ar 30 Medi 2022 ac roedd felly'n disgyn y tu allan i sgôp yr asesiad ES [ER 5.12.94]. Roedd yr Ymgeisydd wedi ymgysylltu'n wirfoddol ag Encirc Glass drwy drafodaethau SoCG [REP6-026] ar ryng-effeithiau'r ddau ddatblygiad, yn bennaf yn ymwneud a mynediad i'r safle, ac mae'r mater yn cael sylw drwy drafodaethau masnachol [ER 5.12.94]. Ni ddisgwylir i gasgliadau'r ES o'r asesiad o effeithiau cronnus newid o gwbl o ganlyniad i gynnwys datblygiadau eraill a gafodd eu hadnabod wrth wneud yr Archwiliad [ER 5.12.95].

4.77. Casglodd yr ExA fod Pennod 19 yr ES wedi asesu'n briodol sut y byddai effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig yn cyfuno a rhyngweithio ag effeithiau datblygiadau eraill (gan gynnwys prosiectau yr oedd caniatâd wedi'i ofyn neu roi ar eu cyfer, yn ogystal â rhai sy'n weithredol yn barod) a bod y Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio ag EN-1 a'r Rheoliadau EIA [ER 5.12.99]. Roedd yr ExA wedi ystyried cyflwyniadau gan bartïon budd, LIR CWCC [REP1A-002], Atodiad [REP1A-003] ac LIR FCC [REP1A-005], Atodiad [REP1A-006] yn ogystal â holl ddiweddariadau'r Archwiliad [ER 5.12.100]. Roedd yr ExA yn cytuno â chanfyddiadau Pennod 19 [ER 5.12.71] yr ES gan ystyried na fyddai unrhyw effeithiau cronnus sylweddol yn codi o gamau adeiladu neu weithredol y Datblygiad Arfaethedig, o ystyried canfyddiadau'r ES a'r camau lliniaru arfaethedig drwy'r dDCO [ER 5.12.97]. Casglodd yr ExA hefyd na fyddai unrhyw effeithiau cronnus sylweddol o ddatgomisiynu'r biblinell bresennol a'r Datblygiad Arfaethedig [ER 5.12.102].

4.78. Roedd yr ExA wedi ystyried cyflwyniadau'r LFoE ond gan benderfynu bod llawer o'r sylwadau'n cyfeirio at effeithiau'r Prosiect HyNet ehangach ac yn ymwneud â materion EIA a HRA a oedd, ym marn yr ExA, y tu allan i gylch gwaith yr Archwiliad [ER 5.12.97]. Roedd yr ExA yn ystyried bod y Datblygiad Arfaethedig yn sefyll ar wahân i'r Prosiect HyNet ehangach ac nad oedd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ei ystyried i fod yn rhan o brosiect mawr aml-gyfnod ehangach yng ngham 'Derbyn' y Cais [ER 5.12.97]. Er hynny, roedd yr Ymgeisydd wedi bodloni'r ExA bod gwaith yn ymwneud â storio CO2 oddi ar y lan, oedd y tu allan i sgôp y Datblygiad Arfaethedig, yn cael ei oruchwylio gan gorff rheoleiddio cymwys sef Awdurdod Pontio Môr y Gogledd [ER 5.12.101]. Fodd bynnag, derbyniodd yr ExA fod gorgyffwrdd clir ac ehangach o ran manteision amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol union ac anuniongyrchol wrth edrych ar ddadleuon y 'darlun mwy' y Prosiect HyNet ehangach gan gydnabod y rhain fel rhan o asesu'r achos dros fod angen [ER 5.12.98].

4.79. Casglodd yr ExA na fyddai unrhyw effeithiau cronnus sylweddol oddi wrth unrhyw agwedd ar y Datblygiad Arfaethedig [ER 5.12.103] gan roi pwysau niwtral i hyn yn y cydbwysedd cynllunio [ER 7.2.18].

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol ar yr Effeithiau Economaidd-Gymdeithasol (gan gynnwys ar Iechyd Pobl) / Defnydd Tir Amaethyddol / Goblygiadau Gwaith Mwynau / ac Effeithiau Cronnus Cyffredinol)*

4.80. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried y bydd effeithiau niweidiol sylweddol ar iechyd pobl yn ystod adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig ac yn cytuno â'r ExA y dylai hyn gario pwysau negyddol yn y cydbwysedd cynllunio. Fodd bynnag mae'n casglu y bydd yr effaith yn un dros dro gan roi pwysau negyddol cymedrol i effeithiau sŵn a dirgryniad ar iechyd pobl. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA nad oes effeithiau sylweddol yn codi o ddamweiniau mawr a thrychinebau a materion diogelwch eiddo a phobl ac yn fodlon rhoi pwysau niwtral i hyn yn y cydbwysedd cynllunio. O ran effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach y Datblygiad Arfaethedig, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn er bod y Datblygiad Arfaethedig yn gysylltiedig â'r Prosiect HyNet ehangach, na ellir priodoli manteision economaidd llawn y Prosiect HyNet ehangach i'r Datblygiad Arfaethedig o gwbl. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol felly wedi rhoi pwysau positif mawr ar y cyfan i'r effeithiau economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys iechyd pobl) gan hefyd nodi'r effaith niweidiol ar iechyd pobl, er yn effaith dros dro, oherwydd sŵn a dirgryniad yn ystod y gwaith adeiladu.

4.81. O ran tir amaethyddol BMV, noda'r Ysgrifennydd Gwladol y pwysau negyddol cymedrol a roddir gan yr ExA i hyn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi faint o dir a fyddai'n cael ei effeithio, y lliniaru arfaethedig a chamau'r Ymgeisydd i osgoi hyn gan ystyried y byddai'r Ymgeisydd yn defnyddio'r SMP a'r CEMP i liniaru ymhellach unrhyw ddifrod i strwythur y pridd a thrwy osgoi priddoedd BMV lle bynnag y bo'n bosib. Gan hynny mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi mân bwysau negyddol i golli tir BMV.

4.82. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliad yr ExA o ran gwaith mwynau gan roi pwysau niwtral i hyn.

4.83. Ar y cyfan felly mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn casglu bod effeithiau economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys ar iechyd pobl), defnydd tir amaethyddol a goblygiadau gwaith mwynau'n cario pwysau positif mawr yn y cydbwysedd cynllunio.

4.84. Noda'r Ysgrifennydd Gwladol fod y Datblygiad Arfaethedig yn brosiect ar wahân i'r Prosiect HyNet ehangach gan ystyried bod yr effeithiau cronnus, gan gynnwys rhai'n gysylltiedig â'r Prosiect HyNet ehangach lle bo'n briodol a lle y mae digon o wybodaeth gyhoeddus ar gael, wedi cael eu hasesu'n gynhwysfawr gan yr Ymgeisydd ac yn fodlon â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliad yr ExA ar yr effeithiau cronnus gan roi pwysau niwtral i hyn.

## 5. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

5.1. Cyhoeddir asesiad HRA yr Ysgrifennydd Gwladol ochr yn ochr â'r llythyr hwn. Dylid darllen y paragraffau isod ochr yn ochr â'r HRA sy'n cyflwyno ystyriaeth lawn yr Ysgrifennydd Gwladol o'r materion hyn.

5.2. Nod Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (diwygiwyd) ("y Rheoliadau Cynefinoedd") yw rhoi gwarchodaeth hirdymor i rywogaethau a chynefinoedd penodol drwy eu diogelu rhag effeithiau niweidiol posib cynlluniau a phrosiectau. Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn dynodi safleoedd er mwyn gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol. Gelwir y safleoedd hyn yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ("SAC"). Maen nhw hefyd yn dosbarthu safleoedd ar gyfer gwarchod adar prin a bregus a

rhywogaethau mudol a welir yn rheolaidd yn y DU ac yn rhyngwladol. Gelwir y safleoedd hyn yn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (“SPA”). Mae ardaloedd SAC a SPA yn rhan o Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol ("NSN") y DU.

5.3. Mae’r Confensiwn ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol 1972 (“Confensiwn Ramsar”) yn rhoi rhestr o wlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol. Gelwir y rhain yn Safleoedd RAMSAR. Mae’n bolisi gan y llywodraeth roi’r un warchodaeth i Safleoedd RAMSAR yn y DU â safleoedd yr NSN (sef ardaloedd SAC ac SPA y cyfeiriwn atynt yn y llythyr hwn fel “safleoedd a warchodir”).

5.4. Mae Rheoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd yn darparu: *“...cyn penderfynu cyflawni neu roi caniatâd neu awdurdodiad arall i gynllun neu brosiect sydd (a) yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd neu safle morol Ewropeaidd oddi ar y lan (naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill), a (b) ddim yn uniongyrchol gysylltiedig â, neu ei angen i reoli, y safle hwnnw, rhaid i’r [awdurdod cymwys] wneud asesiad priodol o’r goblygiadau i’r safle hwnnw ar sail amcanion cadwraeth y safle hwnnw.”*

A hefyd: *“Yng ngoleuni casgliadau’r asesiad ac yn amodol i reoliad 64 (ystyriaethau o fudd cyhoeddus blaenoriaethol), gall yr awdurdod cymwys gytuno i’r cynllun neu brosiect dim ond ar ôl cadarnhau na fydd yn effeithio’n niweidiol ar unoliaeth y safle Ewropeaidd neu’r safle morol Ewropeaidd oddi ar y lan (pa un bynnag sy’n berthnasol).”*

5.5. Nid yw’r Datblygiad Arfaethedig yn uniongyrchol gysylltiedig â, na’n angenrheidiol i reoli, safle a warchodir. Felly o dan reoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd, mae’n ofynnol i’r Ysgrifennydd Gwladol (fel yr Awdurdod Cymwys) ystyried a fyddai’r datblygiad yn debygol, ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill, o gael effaith sylweddol ar unrhyw safle a warchodir. Os na ellir diystyru unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ("LSE"), rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol wneud Asesiad Priodol ("AA") yn edrych ar y goblygiadau i’r safle a warchodir ar sail ei amcanion cadwraeth.

5.6. Os na ellir diystyru effaith niweidiol ar unoliaeth ("AEoI") y safle y tu hwnt i unrhyw amheuaeth wyddonol resymol, mae rheoliadau 64 a 68 o’r Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys darpariaeth i ystyried y posibilrwydd o ddirymu fel y gellir cymeradwyo cynllun neu brosiect o’r fath, ar yr amod bod tri phrawf yn cael eu cwrdd:

- nid oes atebion ymarferol eraill yn lle’r cynllun neu brosiect sy’n llai niweidiol i safleoedd a warchodir;
- mae rhesymau rheidiol o fudd cyhoeddus blaenoriaethol ("IROPI") dros i’r cynllun neu brosiect fynd yn ei flaen; a
- mae mesurau unioni yn eu lle i sicrhau bod cydlyniant cyffredinol yr NSN yn cael ei gadw.

5.7. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ond rhoi caniatâd cynllunio os cadarnhawyd na fydd y Datblygiad Arfaethedig, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, yn effeithio’n niweidiol ar unoliaeth safleoedd a warchodir oni bai y dewisir parhau i ystyried y profion dirymu uchod. Cyfeirir fel arfer at y broses asesu yn ei chyfanrwydd fel HRA.

5.8. Roedd yr ExA yn ystyried bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddigon o wybodaeth i wneud AA er mwyn cyflawni ei dyletswyddau o dan ofynion y Rheoliadau Cynefinoedd.

5.9. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd yn ystod yr Archwiliad yn ofalus gan gynnwys yr Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd ("RIES"), yr ES, sylwadau partïon budd, Adroddiad yr ExA a'r holl sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i lythyrau'r ymgynghoriad. Mae'n ystyried bod gan y Datblygiad Arfaethedig botensial i gael effeithiau LSE ar saith safle a warchodir o'i ystyried ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill:

- SAC Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid;
- SAC Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle;
- SPA Aber Afon Merswy;
- Safle Ramsar Aber Afon Merswy;
- SAC Aber Afon Dyfrdwy;
- SPA Aber Afon Dyfrdwy; a
- Safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy.

5.10. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyflawni AA o amcanion cadwraeth y safleoedd er mwyn penderfynu a fydd y Datblygiad Arfaethedig, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill, yn arwain at effaith AEoI i'r safleoedd a warchodir dan sylw. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried yr holl wybodaeth ar gael iddi, gan gynnwys argymhellion yr ExA, cyngor NE fel y Corff Cadwraeth Natur Statudol ("SNCB") ar gyfer Lloegr a dyfroedd Lloegr o fewn 12 môr-filltir, NRW sef yr SNCB ar gyfer Cymru a dyfroedd Cymru o fewn 12 môr-filltir, barn yr holl bartïon budd eraill ac achos yr Ymgeisydd.

*Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y HRA*

5.11. Ar ôl ystyried y wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys y camau lliniaru a gynigir gan yr Ymgeisydd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon y gellir eithrio AEoI ar y safleoedd a warchodir y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol, ac yn amodol ar weithredu'r camau lliniaru a sicrheir. Mae'r casgliad hwn a'i resymau'n gyson ag argymhellion yr ExA a chyngor NE ac NRW.

## 6. Ystyried Hawliau Tir a Materion Cysylltiedig

6.1. I gynorthwyo gyda darparu'r Datblygiad Arfaethedig, mae'r Ymgeisydd yn gofyn am bwerau CA a TP ar gyfer tir a hawliau na allodd eu prynu drwy gytundeb gwirfoddol. Mae'r Ymgeisydd yn gofyn am y pwerau hyn i:

- prynu tir yn barhaol o fewn ffiniau'r Gorchymyn;
- prynu budd yn yr isbridd sydd o fewn ffiniau'r Gorchymyn;
- cymryd meddiant dros dro o dir o fewn ffiniau'r Gorchymyn;
- prynu hawliau dros beth o'r tir o fewn ffiniau'r Gorchymyn;
- prynu hawliau dros beth o'r isbridd neu ofod awyr o dan neu dros unrhyw stryd o fewn ffiniau'r Gorchymyn;
- dileu hawliau dros beth o'r tir o fewn ffiniau'r Gorchymyn; a
- gohirio dros dro hawliau dros beth o'r tir o fewn ffiniau'r Gorchymyn er mwyn adeiladu, gweithredu a chynnal y Datblygiad Arfaethedig [ER 8.3.3].

6.2. Nid oes o'r tir yn dir Comin neu'n dir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ond Tir Man Agored a thir neu fuddiannau gan y Goron o fewn ffiniau'r Gorchymyn [ER 8.2.2].

Tir Man Agored

6.3. Mae a131 ac a132 Deddf 2008 yn berthnasol i CA o Dir Man Agored a phe bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd datblygu byddai angen bod yn fodlon bod un o'r isadrannau perthnasol yn berthnasol neu y byddai'r Gorchymyn yn destun Gweithdrefn Seneddol Arbennig. Roedd yr ExA yn fodlon nad oedd angen Gweithdrefn Seneddol Arbennig o dan a131 Deddf 2008 oherwydd y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio â'r ddwy elfen o'r prawf a ddisgrifir yn a131(5) sef na fyddai lled yr is-stratwm yn fwy na 8m a chyfanswm yr arwynebedd yn ddim mwy na 200 metr sgwâr, ac ni fyddai angen rhoi tir yn gyfnewid [ER 8.8.9]. Roedd yr ExA hefyd yn fodlon nad oedd angen Gweithdrefn Seneddol Arbennig o dan a132 Deddf 2008 oherwydd byddai'r Tir Man Agored yn ddim llai manteisiol nag o'r blaen, yn unol ag a132(3) Deddf 2008 [ER 8.8.17]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno.

Tir y Goron

6.4. Mae a135(1) Deddf 2008 yn eithrio CA o fuddiannau yn Nhir y Goron oni bai fod y tir yn cael ei ddal *"gan rywun heblaw'r Goron neu ar ran y Goron"* ac mae awdurdod priodol y Goron yn caniatáu. Mae a135(2) Deddf 2008 yn eithrio SCO o gynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n berthnasol i Dir neu Fuddiannau gan y Goron heb ganiatâd gan awdurdod priodol y Goron. Roedd yr Ymgeisydd yn Atodiad 2 ei lythyr eglurhaol DL7 [REP7-001] wedi cynnwys copi o'r awdurdod angenrheidiol gan y Goron ar gyfer Lloegr, gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, ac yn unol ag a135(1) ac a135(2) Deddf 2008 [ER 8.8.23]. Mae Gweinidogion Cymru ac Ystâd y Goron ar ran Ei Ardderchocaf Fawrhydi'r Brenin yn Hawl Ei Goron [REP9-016] wedi rhoi awdurdod angenrheidiol y Goron ar gyfer Cymru ar 20 Medi 2023, yn unol ag a135(1) ac a135(2) Deddf 2008 [ER 8.8.23]. Mae'r ExA yn fodlon bod yr awdurdod angenrheidiol gan y Goron wedi'i roi [ER 8.8.24]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno.

Darpariaethau Gwarchodol

6.5. Pan ddaeth yr Archwiliad i ben, roedd gan nifer o ymgymerwyr statudol a phartïon eraill ddarpariaethau gwarchodol yn y dDCO oedd heb eu cytuno ac argymhellodd yr ExA y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am ddiweddariadau [ER 10.2.1]. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at y partïon hyn a'r Ymgeisydd ar 31 Ionawr 2024 yn gofyn am ddiweddariad.

*Cadent Gas Limited*

6.6. Mae Cadent Gas Limited wedi cadarnhau drwy lythyr ar 2 Chwefror 2024 bod y cwmni a'r Ymgeisydd wedi dod i gytundeb ar ffurf y Darpariaethau Gwarchodol ("PP") drwy gytundeb ochrol ac wedi tynnu ei wrthwynebiad yn ôl. Mae'r Darpariaethau Gwarchodol yr un fath â'r rhai yn rDCO yr ExA pan orffennodd yr Archwiliad. Cadarnhawyd hyn gan yr Ymgeisydd ar 14 Chwefror 2024.

*Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd ("CRT")*

6.7. Cadarnhaodd y CRT drwy lythyr ar 14 Chwefror 2024 fod y CRT a'r Ymgeisydd heb gytuno eto ar ffurf y darpariaethau PP a chytundeb tir gwirfoddol a bod ei gwrthwynebiad yn parhau. Cyflwynodd y CRT hefyd ddarpariaethau PP ychwanegol yn y DCO i'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried.

6.8. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ar 14 Chwefror 2024 fod y partïon yn dal i fod mewn trafodaethau ar ddod i gytundeb tir gwirfoddol a dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn ystyried

bod ei gynnig masnachol yn un teg a rhesymol. Roedd yr Ymgeisydd yn ystyried nad oedd y darpariaethau PP wedi eu cytuno'n llawn oherwydd mater yn ymwneud â chyfyngu pwerau CA. Mae'r Ymgeisydd o'r farn na all gytuno i gyfyngu'r defnydd o bwerau gorfodol oni bai fod y cytundeb tir gwirfoddol yn ei le gan egluro y byddai hyn yn creu sefyllfa 'bridwerth' a risg i ddarparu'r Datblygiad Arfaethedig.

6.9. Roedd yr ExA yn ystyried bod y darpariaethau PP yn addas a phriodol i'w cynnwys yn yr rDCO [ER 9.2.51]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA ac o'r farn bod y darpariaethau'n cynnig digon o warchodaeth i'r CRT.

*Dŵr Cymru Welsh Water ("Dŵr Cymru")*

6.10. Cadarnhaodd Dŵr Cymru drwy lythyr ar 14 Chwefror 2024 fod Dŵr Cymru a'r Ymgeisydd heb gytuno eto ar ffurf y darpariaethau PP a bod ei wrthwynebiad yn parhau. Roedd Dŵr Cymru o'r farn bod y darpariaethau PP ar gyfer United Utilities yn cyd-fynd yn well â'i ddisgwyliadau a gofynion ac y byddai'n hoffi gweld cysondeb ag ymgymerwyr cyfleustodau dŵr. Cadarnhaodd Dŵr Cymru drwy lythyr ar 19 Chwefror 2024 ei fod yn aros am ateb gan yr Ymgeisydd ar y darpariaethau PP hyn. Cadarnhaodd Dŵr Cymru drwy lythyr ar 19 Marwth 2024 fod Dŵr Cymru a'r Ymgeisydd heb gytuno eto ar ffurf y darpariaethau PP a bod ei wrthwynebiad yn parhau.

6.11. Roedd yr Ymgeisydd wedi cadarnhau ei farn ar 14 Chwefror 2024 na fyddai'n briodol na'n ymarferol ail-ddechrau trafodaethau PP o'r newydd ar y pwynt hwn. Yn ôl yr Ymgeisydd, a hyd y gwyddai, dim ond dau bwynt o ddiffiniad oedd heb eu cytuno yn y darpariaethau PP erbyn i'r Archwiliad ddod i ben. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai'n parhau i weithio â Dŵr Cymru i gytuno ar ddiwygiadau rhesymol i'r darpariaethau PP o dan bara.129 "Bydd darpariaethau'r Rhan yma'n weithredol oni chytunir yn wahanol yn ysgrifenedig rhwng yr ymgymerwr a Dŵr Cymru" ond nad oedd angen diwygio'r DCO oedd gerbron yr Ysgrifennydd Gwladol oherwydd bod y darpariaethau hyn yn rhesymol. Yn olaf, noda'r Ymgeisydd fod y darpariaethau'n gyson â'r warchodaeth arferol ar gyfer ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth.

6.12. Nododd yr ExA nad oedd Dŵr Cymru, ar wahân i gwblhau SoCG gyda'r Ymgeisydd [ER 9.2.55] wedi cymryd rhan yn yr Archwiliad fel arall o gwbl [ER 9.2.55]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol, gan nodi'r ymatebion i'w chais am ddiweddariad, o'r farn nad yw'n briodol dechrau ail-ystyried darpariaethau PP hollol newydd o gofio bod yr Archwiliad wedi dod i ben. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliad yr ExA fod y darpariaethau PP yn addas a phriodol i'w cynnwys yn yr rDCO [ER 9.2.56] a bod y darpariaethau yn yr rDCO yn cynnig digon o warchodaeth i Ddŵr Cymru.

*Encirc Limited ("Encirc")*

6.13. Cadarnhaodd Encirc drwy lythyr ar 13 Chwefror 2024 fod Encirc a'r Ymgeisydd heb gytuno eto ar ffurf y darpariaethau PP a bod ei wrthwynebiad yn parhau. Dywedodd Encirc fod y darpariaethau PP a ffafriwyd ganddo'r un fath â'r rhai yn DL7 [REP7-321} gan gadarnhau ei fod yn gobeithio cwrdd â thîm technegol yr Ymgeisydd i weld a oedd ateb a fyddai'n caniatáu creu un groesfan heb dyllu o dan y rheilffordd bresennol a seidins newydd arfaethedig Encirc i adlewyrchu'r darpariaethau PP a ffafriwyd ganddo.

6.14. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ar 14 Chwefror 2024 fod y partïon wedi cytuno sail ar gyfer ymgysylltu ac yn y broses o drefnu cyfarfodydd pellach i gytuno ar Benawdau Telerau a

chytundebau eiddo tirol, y darpariaethau PP angenrheidiol a chytundebau ochrol yn sgîl hynny.

6.15. Roedd yr ExA yn ystyried bod yr Ymgeisydd wedi cyflwyno dadleuon clir, rhesymegol a darbwyllol yn cyfiawnhau pam fod y darpariaethau PP yn y dDCO yn rhoi gwarchodaeth ddigonol a phriodol i Encirc [ER 9.2.68]. Nid oedd yr ExA wedi'i ddarbwyllo bod y darpariaethau PP ychwanegol, oedd yn cael eu hyrwyddo gan Encirc yn DL7, yn gymesur na'n rhesymol [ER 9.2.68]. Roedd yr ExA yn ystyried bod y darpariaethau'n addas a phriodol i'w cynnwys yn yr rDCO [ER 9.2.71] ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r ExA bod y darpariaethau'n rhoi digon o warchodaeth i Encirc.

*Asiantaeth yr Amgylchedd ("EA")*

6.16. Cadarnhaodd yr EA drwy lythyr ar 12 Chwefror 2024 nad oedd yr EA a'r Ymgeisydd wedi cytuno eto ar gytundeb opsiwn a phrydles ar gyfer tir lliniaru amgylcheddol, bod ei wrthwynebiad yn parhau ond y byddai'n dal i drafod â'r Ymgeisydd i gael cytundeb ar y mater.

6.17. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ar 14 Chwefror 2024 fod y pwyntiau o anghydweld rhwng y partïon wedi culhau ers i'r Archwiliad ddod i ben ac yn credu y byddai modd datrys gweddill y pwyntiau. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn aros am ymateb gan yr EA ac yn ystyried bod ei gynnig masnachol yn un teg a rhesymol.

6.18. Roedd yr EA a'r Ymgeisydd wedi cytuno'r darpariaethau PP yn ystod yr Archwiliad ar 5 Medi 2023 gan gadarnhau hynny yn eu SoCG [REP9-004]. Daeth yr Ysgrifennydd Gwladol i gasgliad bod y darpariaethau PP yn yr rDCO wedi eu cytuno ac yn rhoi digon o warchodaeth i'r EA gan nodi y byddai'r partïon yn parhau i geisio datrys y materion heb eu cytuno.

*Exolum Pipeline Systems Limited ("Exolum")*

6.19. Mewn cyflwyniad ar ôl i'r Archwiliad ddod i ben a dderbyniwyd ar 30 Hydref 2023, roedd Exolum wedi cadarnhau bod darpariaethau PP wedi eu cytuno â'r Ymgeisydd ar 20 Medi 2023. Roedd Exolum wedi amgáu'r darpariaethau cytunedig gan nodi nad oeddent yn rhan o gyflwyniad DL9 yr Ymgeisydd oherwydd na chawsant amser i'w cynnwys. Exolum did not respond to the Secretary of State's letter of 31 January 2024.

6.20. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ar 14 Chwefror 2024 fod y darpariaethau PP wedi eu cytuno a bod y drafft cytunedig wedi'i gynnwys yn Atodiad A i'w lythyr. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud y diwygiadau a gytunwyd i'r DCO.

*Network Rail (Cymru a Lloegr) ("NR")*

6.21. Cadarnhaodd NR drwy lythyr ar 8 Chwefror 2024 fod NR a'r Ymgeisydd wedi cwblhau cytundeb fframwaith ar 18 Rhagfyr 2023, yn cynnwys y darpariaethau PP cytunedig atodedig, a fyddai yna'n cael eu hystyried i fod wedi eu hymgorffori yn y Gorchymyn. Cadarnhaodd NR fod cytundeb eiddo'n dal i gael ei negodi a phan fyddai wedi'i gwblhau y byddai NR yn tynnu ei wrthwynebiad yn ôl.

6.22. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod y cytundeb fframwaith, darpariaethau PP a chytundebau eraill wedi eu cytuno ond na fyddai cytundebau eraill efallai wedi eu cwblhau'n llawn nes y byddai dyluniad manwl ar gael. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod y darpariaethau PP yn y cytundeb fframwaith yn rhai a gytunwyd ar 20 Medi 2023 ac a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd

yn Ymateb yr Ymgeisydd i gais Rheol 17 am fwy o wybodaeth [REP9-012]. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd yn REP9-012 nad oedd newid wedi bod i'r darpariaethau PP yng nghyswllt NR ers DL8. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn deall bod y partïon wedi dod i gytundeb ac os yw'r darpariaethau PP yn y cytundeb fframwaith yn wahanol i'r rhai yn yr rDCO, y bydd y darpariaethau yn y cytundeb fframwaith yn disodli darpariaethau PP yr rDCO.

6.23. Roedd yr ExA o'r farn bod y darpariaethau PP yn y dDCO pan ddaeth yr Archwiliad i ben yn cynnig lefel briodol o warchodaeth i dir, cyfarpar ac ymgymeriadau statudol NR [ER 8.7.358]. Roedd yr ExA yn ystyried bod y darpariaethau PP wedi eu cytuno ac yn addas a phriodol i'w cynnwys yn yr rDCO [ER 9.2.45]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno ac o'r farn bod y darpariaethau PP yn rhoi digon o warchodaeth i NR.

*National Grid Electricity Transmission PLC ("NGET")*

6.24. Cadarnhaodd NGET drwy lythyr ar 14 Chwefror 2024 fod NGET a'r Ymgeisydd heb gytuno eto ar ffurf y darpariaethau PP a bod ei wrthwynebiad yn parhau. Cadarnhaodd NGET drwy lythyr ar 21 Chwefror 2024 fod cytundeb dal heb ei gyrraedd a gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol iddo roi diweddariad pellach erbyn 23:59 ar 1 Mawrth 2024. Ar 6 Mawrth 2024 roedd NGET wedi rhoi tabl i'r Ysgrifennydd Gwladol yn egluro'r gwahaniaethau yn y darpariaethau PP. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi adolygu'r tabl hwn ac wedi diwygio paragraff 17 o'r PPs fel y nodir ym mharagraff 9.1 isod.

6.25. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ar 14 Chwefror 2024 fod y darpariaethau PP heb eu cytuno a dim ond un mater, technegol ei natur, heb ei gytuno.

6.26. Roedd yr ExA o'r farn bod y darpariaethau PP yn y dDCO pan ddaeth yr Archwiliad i ben yn cynnig lefel briodol o warchodaeth i NGET ac yn ystyried eu bod yn addas a phriodol i'w cynnwys yn yr rDCO [ER 9.2.32]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i gytuno â'r ExA bod y darpariaethau PP yn rhoi digon o warchodaeth i NGET.

*National Gas Transmission PLC ("NGT")*

6.27. Cadarnhaodd NGT drwy lythyr ar 14 Chwefror 2024 fod NGT a'r Ymgeisydd heb gytuno eto ar ffurf y darpariaethau PP a bod ei wrthwynebiad yn parhau. Cadarnhaodd NGT drwy lythyr ar 21 Chwefror 2024 fod cytundeb dal heb ei gyrraedd a gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol iddo roi diweddariad pellach erbyn 23:59 ar 1 Mawrth 2024. Ar 6 Mawrth 2024 roedd NGT wedi rhoi tabl i'r Ysgrifennydd Gwladol yn egluro'r gwahaniaethau yn y darpariaethau PP. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi adolygu'r tabl a diwygio'r DCO i gywiro enw NGT.

6.28. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ar 14 Chwefror 2024 fod y darpariaethau PP heb eu cytuno a dim ond un mater, technegol ei natur, heb ei gytuno.

6.29. Roedd yr ExA o'r farn bod y darpariaethau PP yn y dDCO pan ddaeth yr Archwiliad i ben yn cynnig lefel addas o warchodaeth i NGT ac yn ystyried eu bod yn addas a phriodol i'w cynnwys yn yr rDCO [ER 9.2.32]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i gytuno â'r ExA bod y darpariaethau PP yn rhoi digon o warchodaeth i NGT.

*Priffyrdd Cenedlaethol ("NH")*

6.30. Cadarnhaodd NH drwy lythyr ar 14 Chwefror 2024 na chafodd ddeialog bellach â'r Ymgeisydd ar y darpariaethau PP ers i'r Archwiliad ddod i ben a bod ei wrthwynebiad yn parhau. Roedd NH wedi ail-ddatgan bod ei wrthwynebiad yr un fath ag yn REP7-316 ac

REP8-046 pan ddaeth yr Archwiliad i ben. Dywedodd NH fod y partïon yn y broses o negodi cytundeb opsiwn ar gyfer prydles hawddfraint gan ddisgwyl dod i gytundeb yn fuan, o ran gwrthwynebiad NH i bwerau CA. Roedd NH wedi ail-ddatgan bod CA yn anghymesur a diangen gan achosi niwed difrifol i ymgymeriadau NH.

6.31. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ar 14 Chwefror 2024 na allai gytuno i'r cytundeb masnachol hwn oherwydd safiad NH y byddai'r cytundeb ar yr amod na fyddai pwerau CA neu TP yn ofynnol gan yr Ymgeisydd mwyach ac yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol eu tynnu allan o'r DCO. Mae'r Ymgeisydd yn ystyried bod hyn, heb gael cytundeb gwirfoddol yn ei le, yn ei roi mewn sefyllfa bridwerth. Dywedodd yr Ymgeisydd hefyd, o ystyried safiadau anghyson NH hyd yma, ei fod yn ystyried bod y risg o beidio â gofyn am bwerau gorfodol, a gorfod dibynnu ar ddod i gytundeb â NH, yn annerbyniol. Roedd yr Ymgeisydd wedi ail-ddatgan ei fod yn dal i ofyn am bwerau gorfodol ar gyfer NH a oedd yn parhau i fod yn angenrheidiol i sicrhau bod y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei ddarparu. Roedd yr Ymgeisydd wedi ail-ddatgan bod ei safiad ar y darpariaethau PP heb newid pan ddaeth yr Archwiliad i ben ac wedi'i gefnogi gan farn Cwnsler y Brenin [REP8-038], bod drafft NH yn ddiangen, anghymesur ac afresymol ac y dylid ffafrio drafft yr Ymgeisydd o'r darpariaethau PP.

6.32. Roedd yr ExA yn fodlon bod angen y pwerau CA/TP yr oedd yr Ymgeisydd yn gofyn amdanynt ar gyfer NH i hwyluso a / neu ategu'r Datblygiad Arfaethedig ac yn fodlon eu bod yn cwrdd â'r amodau yn a122(2) Deddf 2008 [ER 8.7.437]. Roedd yr ExA yn ystyried y byddai darpariaethau PP yr Ymgeisydd yn rhoi lefel briodol o warchodaeth i NH o ran ei ymgymeriadau statudol, ei dir a'i gyfarpar gan sicrhau na fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at niwed difrifol i allu cyflawni ei ymgymeriadau [ER 8.7.439]. Cafodd y darpariaethau PP hyn eu cynnwys yn yr rDCO. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno ac o'r farn bod y darpariaethau PP yn rhoi digon o warchodaeth i NH.

*Peel NRE Limited ("Peel")*

6.33. Cadarnhaodd Peel drwy lythyr ar 2 Chwefror 2024 fod Peel a'r Ymgeisydd heb gytuno eto ar ffurf y darpariaethau PP a chytundeb gwirfoddol ac wedi tynnu ei wrthwynebiad yn ôl. Mae'r darpariaethau PP cytunedig yr un fath â'r rhai yn rDCO yr ExA pan ddaeth yr Archwiliad i ben. Cadarnhawyd hyn gan yr Ymgeisydd ar 14 Chwefror 2024.

*United Kingdom Oil Pipelines Limited ("UKOP")*

6.34. Nid oedd UKOP wedi ymateb i lythyr yr Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 31 Ionawr 2024. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ar 14 Chwefror 2024 ei fod yn deall bod y darpariaethau PP wedi eu cytuno fel yr oeddent yn y dDCO pan ddaeth yr Archwiliad i ben a bod y gwrthwynebiad wedi cael ei ddatrys. Noda'r Ysgrifennydd Gwladol na dderbyniwyd ymateb pellach gan UKOP ond gan nodi sut bynnag bod yr ExA o'r farn bod y darpariaethau PP o blaid UKOP yn addas a phriodol i'w cynnwys yn yr rDCO gan roi lefel addas i warchodaeth i UKOP [ER 9.2.60]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r casgliad hwnnw.

*Wales and West Utilities ("WWU")*

6.35. Nid oedd WWU wedi ymateb i lythyr yr Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 31 Ionawr 2024. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ar 14 Chwefror 2024 ei fod yn deall bod y darpariaethau PP wedi eu cytuno fel yr oeddent yn y dDCO pan ddaeth yr Archwiliad i ben a bod y gwrthwynebiad wedi'i ddatrys, yn unol â'r SoCG a lofnodwyd [REP8-023]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried bod y darpariaethau PP wedi eu cytuno gan nodi bod yr

ExA o'r farn bod y darpariaethau o blaid WWU yn addas a phriodol i'w cynnwys yn yr rDCO gan roi lefel addas o warchodaeth i WWU [ER 9.2.53].

Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol ar Hawliau Tir a Materion Cysylltiedig

6.36. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried yr holl wybodaeth yn Adroddiad yr ExA, yr holl gyflwyniadau a'r diweddariadau pellach uchod. Roedd yr ExA wedi ystyried gwrthwynebiadau mewn sylwadau RR ac WR, cyflwyniadau pellach a chyflwyniadau a wnaed yn y Gwrandawiadau Prynu Gorfodol wrth ystyried materion cynllunio a rhoi pwerau CA [ER 8.7.1].

6.37. Roedd yr ExA wedi ystyried gwrthwynebiadau cyffredinol gan 24 o bartïon [ER 8.7.2 – 8.7.119] ac yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi rhoi digon o amser i negodi ac na thynnwyd sylw'r ExA at unrhyw geisiadau cynllunio ffurfiol ar dir y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio arno yn ystod yr Archwiliad [ER 8.7.115]. Roedd yr ExA yn ystyried bod y pwerau CA/TP y gofynnwyd amdanynt yn cwrdd â'r gofynion yn a122(2) Deddf 2008 oherwydd naill ai bod eu hangen ar gyfer y gwaith penodol a ddisgrifiwyd yn y Cynlluniau Gwaith neu eu hangen i hwyluso neu i ategu'r gwaith hwn [ER 8.7.117]. Casglodd yr ExA fod achos cryf o fudd cyhoeddus dros gynnwys y pwerau CA/TP a ofynnwyd amdanynt yn yr rDCO a bod yr amodau yn a122(3) Deddf 2008 wedi eu bodloni [ER 8.7.119]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno.

6.38. Roedd yr ExA wedi ystyried gwrthwynebiadau penodol gan Essar Oil UK Ltd, Encirc Limited, Peel NRE Limited, Travelodge Hotels Limited, Brian Cook, Emma Clare Craven Smith-Milnes ac Anthony David Wynne Griffith, Sarah Harley, Benjamin Jones (R B & J Jones & Son), Messrs H W Oultram & Co, Miss C Oultram & Messrs S & A Oultram, Gillian Stevenson, Phillip Warrington a Vera Elaine Warrington a Carl Woods [ER 8.7.120 - 8.7.279]. Yn achos yr holl wrthwynebiadau, roedd yr ExA yn ystyried bod y pwerau CA/TP y gofynnwyd amdanynt yn cwrdd â'r gofynion yn a122(2) Deddf 2008 a bod achos cryf o fudd cyhoeddus dros gynnwys y pwerau CA/TP yn yr rDCO a bod yr amodau yn a122(3) Deddf 2008 wedi cael eu bodloni [ER 8.7.120 - 8.7.279]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno.

6.39. Casglodd yr ExA fod yr holl opsiynau rhesymol eraill i CA wedi cael eu hystyried a bod angen clir am y pwerau CA a TP ar gyfer yr holl leiniau tir yn y Llyfr Cyfeiriol [REP7-025], gan nodi bod angen sicrhau'r tir a'r hawliau sydd eu hangen i adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig o fewn amserlen fasnachol resymol [ER 8.10.1]. Roedd yr ExA wedi nodi bod y golled breifat i'r rhai a fyddai'n cael eu heffeithio wedi'i lliniaru drwy'r detholiad o dir a thrwy leihau faint o hawliau a buddiannau y bwriedir eu caffael [ER 8.10.1]. Casglodd yr ExA fod y pwerau y gofynnir amdanynt yn bodloni'r amodau yn a122 ac a123 Deddf 2008 a bod y pwerau CA y gofynnir amdanynt yn ymwneud ag Ymgymerwyr Statudol yn cwrdd â'r amodau yn a127 ac a138 Deddf 2008 [ER 8.12.1]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn cytuno.

6.40. Casglodd yr ExA fod y pwerau y gofynnir amdanynt yng nghyswllt Tir Man Agored yn unol ag a132(3) Deddf 2008 a bod y pwerau y gofynnir amdanynt yng nghyswllt Tir y Goron a / neu Hawliau'r Goron yn unol ag a135(1) ac a135(2) Deddf 2008 [ER 8.10.1]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno.

6.41. Casglodd yr ExA y byddai'r ymyrryd â Hawliau Dynol yn gyfreithlon, angenrheidiol, cymesur ac wedi'i gyfiawnhau er budd cyhoeddus ac na fyddai'n mynd yn groes i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ("PSED") [ER 8.10.1]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn

cytuno ac nid oes ganddi unrhyw le i gredu y byddai caniatáu'r Gorchymyn yn achosi unrhyw ymyrryd digyfiawnhad â hawliau dynol a fyddai'n gwrthdaro â darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998.

## 7. Ystyriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o'r Cydbwysedd Cynllunio, Casgliad a Phenderfyniad

7.1. Os yw datganiadau NPS yn berthnasol, o dan a104 Deddf 2008 mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried ystod o ystyriaethau polisi gan gynnwys y datganiadau NPS perthnasol, dogfennau polisi morol, adroddiadau LIR, materion rhagnodedig ac unrhyw faterion eraill sy'n bwysig a pherthnasol i'r penderfyniad ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol. Os nad yw a104 yn berthnasol, o dan a105 mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried adroddiadau LIR, materion rhagnodedig ac unrhyw faterion eraill sy'n bwysig a pherthnasol i'r penderfyniad ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol.

7.2. Fel y nodwn uchod, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dod i'r casgliad, fel y gwnaeth yr ExA, nad oes unrhyw NPS yn berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig ac y gellir felly penderfynu'r Cais o dan a105, ond er hynny'n ystyried, fel yr ExA, bod NPS EN-1 ac EN-4 yn parhau i fod yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol. Roedd yr ExA hefyd wedi ystyried datganiadau dNPS ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried datganiadau NPS newydd 2024. Mae awdurdodau lleol FCC a CWCC o blaid y Datblygiad Arfaethedig, a chadarnheir hyn yn eu hadroddiadau LIR, ac nid oes unrhyw wrthdaro â'r cynlluniau LDP perthnasol. Nid oes unrhyw faterion rhagnodedig wedi eu hadnabod. Mae'r ExA a'r Ysgrifennydd Gwladol wedi adnabod ystod o faterion pwysig a pherthnasol, sef deddfwriaeth ynni a newid hinsawdd, a pholisi sy'n ôl-ddyddio cyhoeddi'r datganiadau NPS ar ynni yn 2011, gan gynnwys datganiadau NPS 2024. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno y dylid rhoi pwysau sylweddol i'r materion hyn a'u bod yn faterion pwysig a pherthnasol yng nghyd-destun a105 Deddf 2008.

7.3. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydnabod argymhelliad yr ExA bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Piblinell Carbon Deuocsid HyNet yn y ffurf wedi'i hatodi yn Atodiad D i Adroddiad yr ExA [ER 10.2.2].

7.4. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliadau'r ExA a'r pwysau a roddodd yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol i'r materion canlynol:

- Gwydnwch Newid Hinsawdd (pwysau niwtral) [ER 5.4 et seq.];
- Perygl Llifogydd, Adnoddau Dŵr, Halogi Tir (pwysau niwtral) [ER 5.6 et seq.];
- Tirlun ac Amwynder Gweledol / Dyluniad a Chynllun Gosod Allan (pwysau negyddol mawr) [ER 5.7 et seq.];
- Allyriadau ac Ansawdd yr Aer (gan gynnwys o lwch, mwg a stêm) (pwysau niwtral) [ER 5.10 et seq.];
- Traffig, Trafnidiaeth a Pholisi Rheoli Gwastraff (pwysau niwtral) [ER 5.11 et seq.]: a
- Yr Achos dros fod Angen y Datblygiad (pwysau positif mawr iawn) [ER 5.2 et seq., 5.3 et seq.].

7.5. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried y materion canlynol yn fwy manwl uchod gan ddod i gasgliad yn y paragraffau uchod:

- Asesiad o'r Opsiynau Eraill (Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod yr opsiynau eraill wedi eu hystyried yn briodol);

- Bioamrywiaeth, Ecoleg a Chadwraeth Natur (Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi mân bwysau negyddol i'r materion hyn);
- Treftadaeth Ddiwylliannol (Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi pwysau negyddol cymedrol i hyn);
- Sŵn a Dirgryniad (Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi pwysau negyddol cymedrol i hyn); a
- Effeithiau Economaidd-Gymdeithasol (gan gynnwys Iechyd Pobl / Defnydd Tir Amaethyddol / Goblygiadau Gwaith Mwynau / Effeithiau Cronnus Cyffredinol (Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi pwysau positif mawr i effeithiau economaidd-gymdeithasol a phwysau niwtral i'r effeithiau cronnus cyffredinol).

7.6. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydnabod y bydd gan bob NSIP rai effeithiau niweidiol posib. Yn achos y Datblygiad Arfaethedig, mae'r rhan fwyaf o'r effeithiau posib wedi cael eu hasesu i fod yn unol ag NPS EN-1 ac NPS EN-4 a datganiadau NPS newydd 2024, yn amodol mewn rhai achosion ar roi mesurau lliniaru addas yn eu lle i leihau'r effeithiau neu eu hosgoi yn llwyr fel sy'n ofynnol gan bolisi NPS. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried bod y mesurau lliniaru hyn wedi eu sicrhau'n briodol.

7.7. Casglodd yr ExA y byddai gwneud yr rDCO sy'n cael ei argymell yn unol ag NPS EN-1 ac EN-4, a hefyd â'r datganiadau dNPS [ER 10.1.5]. Byddai hefyd yn unol â PPW, y NPPF a pholisïau perthnasol yn y cynlluniau LDP a'r adroddiadau LIR [ER 10.1.5]. Casglodd yr ExA hefyd, yn amodol ar ddiwygiadau i'r rDCO, y gellid eithrio unrhyw effaith niweidiol ar unoliaeth safleoedd Ewropeaidd a'u nodweddion oddi wrth y Datblygiad Arfaethedig o'i ystyried ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill [ER 10.1.16].

7.8. At ei gilydd, casglodd yr ExA na fyddai effeithiau niweidiol yn codi o'r Datblygiad Arfaethedig a fyddai'n gwrthbwyso ei fanteision [ER 10.1.26]. Casglodd yr ExA fod y Datblygiad Arfaethedig, yn ffurf fersiwn amgen yr Ymgeisydd o'r dDCO (Fersiwn Pont Bibell Wedi'i Mewnblannu) yn bodloni'r profion yn a105 Deddf 2008, ar yr amod y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol fodloni ei hun ar faterion heb eu cytuno [ER 10.2.2].

7.9. Fel y nodwn uchod, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi pwysau positif mawr iawn i'r angen am y Datblygiad Arfaethedig, gan gytuno â'r ExA sy'n nodi ei fod yn gyson â, ac yn cefnogi, ymdrechion y Llywodraeth i gyflawni ei hamcanion datgarboneiddio [ER 10.1.10]. Disgrifir yr *"angen taer"* am CCS yn 2024 EN-1 sydd, ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, yn ystyriaeth bwysig a pherthnasol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn rhoi pwysau positif mawr i effeithiau economaidd-gymdeithasol y Datblygiad Arfaethedig gan nodi y byddent ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

7.10. Fel y nodwn uchod, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi pwysau negyddol mawr i dirlun ac amwynder gweledol / dyluniad a chynllun gosod allan, mân bwysau negyddol i fioamrywiaeth, ecoleg a chadwraeth natur, pwysau negyddol cymedrol i dreftadaeth ddiwylliannol a phwysau negyddol cymedrol i sŵn a dirgryniad.

7.11. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried a phwyso'r gwahanol fanteision a niwed a restrir. Er bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi dod i gasgliad gwahanol i'r ExA ar rai o'r niweidiau a fyddai'n deillio o'r Datblygiad Arfaethedig, mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn casglu bod y Datblygiad Arfaethedig yn unol â datganiadau NPS perthnasol a bod y niwed yn yr achos hwn yn cael ei wrthbwyso'n glir gan y pwysau mawr iawn i ddarparu seilwaith CCS sydd taer ei angen, ynghyd â'r manteision eraill a ddisgrifiwyd.

7.12. O ganlyniad mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y dylid rhoi caniatâd datblygu i Biblinell Carbon Deuocsid HyNet yn unol ag a105 Deddf 2008. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod yr angen cenedlaethol fel y mae'r datganiadau NPS perthnasol yn ei egluro'n gwrthbwyso effeithiau niweidiol posib y Datblygiad Arfaethedig, sydd i'w lliniaru o dan delerau arfaethedig y Gorchymyn.

7.13. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol felly wedi derbyn argymhelliad yr ExA i roi caniatâd. Wrth ddod i'w chasgliad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau yr ystyriwyd Adroddiad yr ExA, y Cynlluniau Datblygu perthnasol, adroddiadau LIR CWCC a FCC, y datganiadau NPS sydd mewn grym a datganiadau NPS drafft a newydd 2024 a'r holl faterion eraill a ystyrir i fod yn bwysig a pherthnasol i benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol fel sy'n ofynnol o dan a105 Deddf 2008. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadarnhau i bwrpasau rheoliad 4(2) Rheoliadau EIA bod y wybodaeth amgylcheddol yn unol â'r diffiniad yn rheoliad 3(1) y Rheoliadau hynny wedi cael ei hystyried.

## 8. Materion Eraill

Deddf Cydraddoldeb 2010

8.1. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys *"dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol"* ("PSED") i'r sector cyhoeddus. O dan y Ddeddf, rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus wrth ymarfer eu swyddogaethau i fod angen dileu gwahaniaethu, harasio a fictimeiddio anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir a rhai sydd ddim; a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir a rhai sydd ddim, ar gyfer y *"nodweddion a warchodir"* canlynol: oed, rhywedd, ailbennu rhywedd, anabledd, priodas a phartneriaeth sifil[3]; beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd a chred, a hil.

8.2. Wrth ystyried hyn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol (fel yr un sy'n penderfynu) roi sylw dyledus i amcanion y PSED. Rhaid i hyn gynnwys ystyried yr holl effeithiau posib ar gydraddoldeb a gododd yn ystod yr Archwiliad. Gall fod niwed i bartïon a fyddai'n cael eu heffeithio ond, os oes, rhaid cydnabod hynny ac ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb.

8.3. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd hon a heb adnabod unrhyw bartïon gyda nodwedd a warchodir y gallai'r penderfyniad i roi caniatâd i'r Datblygiad Arfaethedig wahaniaethu yn eu herbyn.

8.4. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ffyddiog, wrth wneud y penderfyniad sydd wedi'i argymell, ei bod wedi rhoi sylw dyledus i'r amcanion uchod wrth ystyried effeithiau posib rhoi neu wrthod caniatâd a gall gasglu na fydd y Datblygiad Arfaethedig yn arwain ar unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar bobl sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion a warchodir. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol felly'n casglu nad yw rhoi caniatâd yn debygol o arwain at effaith sylweddol ar gyfle cyfartal na'r berthynas rhwng rhai sy'n rhannu nodwedd a warchodir ac eraill, na'n debygol o wahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn unrhyw nodweddion penodol a warchodir.

[3] O ran yr amcan statudol cyntaf (dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ayyb) yn unig.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

8.5. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, o dan ddyletswydd adran 6(1) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ecosystemau, a thrwy wneud hynny hyrwyddo eu gwydnwch, cyn belled ag y bo'n gyson ag ymarfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Yn benodol, o dan adran 6(4)(a), rhaid ystyried Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig 1992. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod Adroddiad yr ExA yn ystyried bioamrywiaeth yn unol â'r ddyletswydd hon.

8.6. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod Adroddiad yr ExA, ynghyd â'r ES, yn ystyried bioamrywiaeth yn ddigonol i oleuo ei barn am hyn. Wrth ddod i'r penderfyniad i roi caniatâd i'r Datblygiad Arfaethedig, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi sylw dyledus i warchod bioamrywiaeth.

Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006

8.7. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi'r *"amcan bioamrywiaeth cyffredinol"* i warchod a gwella bioamrywiaeth yn Lloegr, adran 40(A1) Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ac yn ystyried bod y Cais yn gyson â hyrwyddo'r amcan hwnnw ar ôl hefyd ystyried Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig 1992 wrth wneud y penderfyniad hwn.

8.8. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod Adroddiad yr ExA, ynghyd â'r ES, yn ystyried bioamrywiaeth yn ddigonol i oleuo ei barn am hyn. Wrth ddod i'r penderfyniad i roi caniatâd i'r Datblygiad Arfaethedig, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi sylw dyledus i warchod bioamrywiaeth.

Datganiad Polisi Egwyddorion Amgylcheddol

8.9. Ers 1 Tachwedd 2023, mae gan Weinidogion ddyletswydd gyfreithiol i roi sylw dyledus i'r Datganiad Polisi Egwyddorion Amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau polisi. Nid yw hyn yn berthnasol i benderfyniadau cynllunio ac, o ganlyniad, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ei ystyried wrth gyrraedd ei phenderfyniad ar y cais hwn.

## 9. Addasiadau i'r Gorchymyn drafft

9.1. Ar ôl ystyried y Gorchymyn a argymhellir ac a gyflwynir gan yr ExA, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud yr addasiadau canlynol i'r Gorchymyn a argymhellir:

- Diwygiadau i erthygl 7 (Budd y Gorchymyn) i gadarnhau bod darpariaethau'r Gorchymyn yn cael yr effaith o fod o fudd i'r trosglwyddai y trosglwyddir budd y Gorchymyn iddo a bod y budd a drosglwyddir yn gorwedd gyda'r trosglwyddai'n unig ar ôl ei drosglwyddo, oni bai fod tor-Gorchymyn ar ran yr ymgymerwr wedi digwydd cyn y trosglwyddiad perthnasol.

- Diwygiad i erthygl 22 (Awdurdod i arolygu ac ymchwilio tir) i'w gwneud yn ofynnol bod yr ymgymerwr i symud ymaith unrhyw gyfarpar a osodwyd o dan yr erthygl hon ac yn adfer y tir i foddhad rhesymol y tirfeddianwyr ar ôl cwblhau unrhyw weithgareddau o dan yr erthygl hon.

- Dileu erthygl (flaenorol) 24 (Symud ymaith olion dynol) i adlewyrchu na ystyrir bod yr erthygl hon yn angenrheidiol na'n briodol oherwydd gofynion statudol ar wahân. Mae hyn hefyd yn gyson â'r safiad mewn Gorchmynion Caniatâd Datblygu blaenorol.

- Diwygiad i erthygl 24 (Prynu Tir yn Orfodol) i ddarparu ar gyfer gallu prynu tir yn orfodol, yn amodol i'r terfynau amser a nodir yn erthygl 25 (Terfyn amser i ymarfer yr awdurdod i brynu tir yn orfodol).

- Diwygiadau i erthygl 30 (Cymhwyso Deddf 1981) i gynnwys cyfeiriadau at Ddeddf Gynllunio 2008 a'r Gorchymyn a argymhellir, ac i sicrhau cysondeb â'r safiad a gymerwyd mewn Gorchmynion Caniatâd Datblygu eraill.

- Diwygiadau i erthygl 34 (Defnyddio tir dros dro i gyflawni'r datblygiad awdurdodedig) i gadarnhau bod yr erthygl ond yn caniatáu defnyddio'r tir dros dro i'r pwrpasau a ddiffinnir yn erthygl 34(1))(a) ac na ddylai'r ymgymerwr barhau i feddiannu'r tir am ddim mwy o amser na sy'n rhesymol angenrheidiol.

- Diwygiad i erthygl 35 (Defnyddio tir dros dro i gynnal a chadw'r datblygiad awdurdodedig). Mae'r erthygl hon yn ymwneud â meddiant dros dro o dir y Gorchymyn ar gyfer "cynnal a chadw" yn ystod y cyfnod cychwynnol ar ôl adeiladu, yn hytrach na hawliau parhaol a fydd yn cael eu caffael. Mae diwygiadau wedi cael eu gwneud i ddiffinio'r cyfnod cynnal a chadw o 5 mlynedd o'r amser y bydd y rhan berthnasol o'r datblygiad awdurdodedig yn dechrau cael ei ddefnyddio'n weithredol heblaw ar gyfer tirlunio, pryd y diffinnir y cyfnod fel yr un cyfnod ag yng ngofyniad 12(4).

- Dileu erthygl 47 (Gofynion, apeliadau, ayyb) i ddileu gallu'r ymgymerwr i apelio penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i Ysgrifennydd Gwladol na fyddai'n gyfrifol am benderfynu'r Gorchymyn.

- Diwygiad i ofyniad 12 (Cynllun tirlun a rheolaeth ecolegol) i liniaru effaith weledol y datblygiad awdurdodedig drwy gynyddu cyfnod ôl-ofal y gwaith plannu i 25 mlynedd (oes gyfan y Datblygiad Arfaethedig).

- Diwygiad i ofyniad 14 (Enillion bioamrywiaeth net) i newid y diffiniad o fetrig bioamrywiaeth i ymestyn i unrhyw fetrig bioamrywiaeth arall a gymeradwyir gan yr awdurdod cynllunio perthnasol drwy ymgynghori â'r corff ymgynghori natur statudol perthnasol.

- Diwygiad i ran 3 atodlen 10 (Gwarchodaeth ar gyfer National Grid Electricity Transmission plc) i gadarnhau bod y paragraff yn y darpariaethau PP yn ymwneud ag indemniti'n berthnasol i ymarfer yr holl bwerau o dan y Gorchymyn sy'n effeithio ar hawliau a chyfarpar NGET er bod darpariaethau eraill yn y darpariaethau PP yn cael eu datgymhwyso ar gyfer cyfarpar lle y rheoleiddir y berthynas rhwng yr ymgymerwr ac NGET o dan Ran 3 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 gan ei bod yn ymddangos bod hwn wedi'i hepgor mewn camgymeriad.

- Diwygiad i ran 20 atodlen 10 (Gwarchodaeth ar gyfer Exolum Pipeline System Ltd) i adlewyrchu diwygiadau a gytunwyd gan yr Ymgeisydd ac Exolum Pipeline System Ltd ("Exolum") i gynnwys ymrwymiad gan yr Ymgeisydd i roi hawliau newydd i Exolum ar fwy neu lai'r un telerau â'r hawliau presennol pe byddent yn cael eu diddymu ar ôl prynu'r

budd rhydd-ddaliadol y mae gan Exolum fudd ynddo, a thynnu allan hepgor atebolrwydd ar gyfer colledion canlyniadol neu anuniongyrchol.

9.2. Yn ogystal â'r uchod, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud amrywiol newidiadau i'r Gorchymyn drafft sydd ddim yn newid ei effaith yn sylweddol, gan gynnwys newidiadau i gydymffurfio â'r ymarfer presennol ar gyfer offerynnau statudol a newidiadau i roi eglurder a chysondeb.

**10. Herio'r penderfyniad**

10.1. Disgrifir o dan ba amgylchiadau y gellir herio penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn Atodiad A i'r llythyr hwn.

**11. Cyhoeddusrwydd i'r penderfyniad**

11.1. Mae penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y cais hwn yn derbyn cyhoeddusrwydd fel sy'n ofynnol o dan a116 Deddf 2008 a rheoliad 31 y Rheoliadau EIA.

11.2. O dan adran 134(6A) Deddf 2008, bydd hysbysiad prynu gorfodol yn bridiant tir lleol. Hefyd o dan a134(6A), rhaid anfon yr hysbysiad prynu gorfodol at y Prif Gofrestrydd Tir a bydd hyn yn digwydd os yw'r Gorchymyn wedi'i leoli mewn ardal y mae'r Prif Gofrestrydd Tir wedi hysbysu eu bod erbyn hyn yn cadw'r gofrestr pridiannau tir lleol ar ei chyfer, yn dilyn newidiadau o dan Atodlen 5 i Ddeddf Seilwaith 2015. Fodd bynnag, os yw'r Gorchymyn wedi'i leoli mewn ardal y mae'r awdurdod lleol yn parhau i fod yn awdurdod cofrestru ar gyfer pridiannau tir lleol ar ei chyfer (oherwydd na ddaeth y newidiadau o dan Ddeddf Seilwaith 2015 i rym eto), dylai'r darpar-brynwr gydymffurfio â'r camau sy'n ofynnol eu cymryd o dan adran 5 Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975 (cyn cael ei diwygio gan Ddeddf Seilwaith 2015) i sicrhau bod y pridiant yn cael ei gofrestru gan yr awdurdod lleol.

Yn gywir,

[redacted]

David Wagstaff OBE

Pennaeth Datblygu Seilwaith Ynni

**ATODIAD A: HERIAU CYFREITHIOL YN YMWNEUD Â CHEISIADAU AM ORCHMYNION CANIATÂD DATBLYGU**

O dan adran 118 Deddf Gynllunio 2008, gellir ond herio Gorchymyn yn rhoi caniatâd datblygu, neu unrhyw beth a wnaed neu na chafodd ei wneud, gan yr Ysgrifennydd Gwladol yng nghyswllt cais am Orchymyn o'r fath, drwy wneud cais am adolygiad barnwrol. Rhaid gwneud cais am adolygiad barnwrol i'r Llys Cynllunio yn ystod y chwe wythnos sy'n dechrau gyda'r diwrnod ar ôl diwrnod cyhoeddi'r Gorchymyn neu benderfyniad. Mae'r dogfennau penderfyniad yn cael eu cyhoeddi ar ddyddiad y llythyr hwn ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio yn y cyfeiriad canlynol:

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/

**Darperir y nodiadau hyn fel canllawiau'n unig. Cynghorir person sy'n meddwl bod ganddynt seiliau dros herio'r penderfyniad i wneud y Gorchymyn y cyfeirir ato yn y llythyr hwn i ofyn am gyngor cyfreithiol cyn cymryd unrhyw gamau. Os oes angen cyngor arnoch ar y broses o gyflwyno her, dylech gysylltu â'r Administrative Court Office** yn y **Royal Courts of Justice, Strand, London, WC2A 2LL (0207 947 6655).**

## ATODIAD B: RHESTR BYRFODDAU

| Byrfodd | Ystyr |
|---|---|
| AA | Asesiad Priodol |
| AEoI | Effaith Niweidiol ar Unoliaeth |
| AGI | Gosodiad Uwchlaw'r Ddaear |
| BESS | Strategaeth Sicrwydd Ynni Prydain |
| BMV | Gorau a Mwyaf Amlbwrpas |
| BNB | Budd Bioamrywiaeth Net |
| BNG | Enillion Bioamrywiaeth Net |
| BVS | Gorsaf Falfiau Bloc |
| CA | Prynu Gorfodol |
| CCS | Dal a Storio Carbon |
| CCUS | Dal, Defnyddio a Storio Carbon |
| CEMP | Cynllun Lliniaru Amgylcheddol Adeiladu |
| $CO_2$ | Carbon Deuocsid |
| COMAH | Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr |
| CPAT | Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys |
| CRT | Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd |
| CWCC | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caer a Gorllewin Sir Gaer |
| DCO | Gorchymyn Caniatâd Datblygu |
| EA | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| EIA | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| Rheoliadau EIA | Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017 |
| ES | Datganiad Amgylcheddol |
| ExA | Yr Awdurdod Archwilio |
| FCC | Cyngor Sir y Fflint |
| GHG | Nwyon tŷ gwydr |
| HRA | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| HSE | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| IP | Parti Budd |
| IROPI | Rhesymau Hanfodol Er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig |
| km | Cilometr |
| LDP | Cynllun Datblygu Lleol |
| LEMP | Cynllun Tirlun a Rheolaeth Ecolegol |
| LFoE | Cyfeillion y Ddaear Lerpwl |
| LIR | Adroddiad Effeithiau Lleol |
| LSE | Effaith Sylweddol Debygol |
| MSA | Ardal Diogelu Mwynau |
| MW | Megawat |
| NE | Natural England |
| NGET | National Grid Electricity Transmission PLC |
| NGT | National Gas Transmission PLC |
| NH | Priffyrdd Cenedlaethol |
| NPPF | Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol |
| NPPG | Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol |
| NPS | Datganiad Polisi Cenedlaethol |
| NR | Network Rail (Cymru a Lloegr) |
| NRW | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| NSIP | Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| NSN | Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol |
| OCEMP | Cynllun Lliniaru Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol |
| PP | Darpariaethau Gwarchodol |
| PPW | Polisi Cynllunio Cymru |
| PRoW | Hawl Tramwy Cyhoeddus |
| PSED | Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus |
| RIES | Adroddiad ar y Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd |

| | |
|---|---|
| RR | Sylw Perthnasol |
| SAC | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| SMP | Cynllun Rheoli Pridd |
| SNCB | Corff Cadwraeth Natur Statudol |
| SoCG | Datganiad o Dir Cyffredin |
| SPA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| TAN | Nodyn Cyngor Technegol |
| Deddf 2008 | Deddf Gynllunio 2008 |
| Y PLA | Deddf Piblinellau 1982 |
| Y TCPA | Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 |
| Y WBFGA | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| TP | Meddiant Dros Dro |
| UKOP | United Kingdom Oil Pipelines Limited |
| WR | Sylwadau Ysgrifenedig |
| WWU | Wales and West Utilities |